Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Buddsoddi i Arbed 3

## Buddsoddi yn y tymor byr er budd y tymor hir





Y diweddaraf am brosiectau effeithlonrwydd a gwella yn y gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi cael arian Buddsoddi i Arbed gan Lywodraeth Cymru

Hydref 2012

ISBN digidol 978 0 7504 7965 3
© Hawlfraint y Goron 2012
WG16337

# Rhagair y Gweinidog

Mae cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru a gyhoeddir heddiw'n nodi sut yr ydym yn bwriadu sicrhau cydbwysedd rhwng yr angen i ddarparu gwasanaethau o ansawdd da sy'n canolbwyntio ar y dinesydd a chyllidebau sy'n mynd yn dynnach o hyd ac ar yr un pryd parhau i fuddsoddi yn ein Rhaglen Lywodraethu.

Nid yw'r angen i ystyried yn fwy sylfaenol sut y gallai gwasanaethau cyhoeddus gael eu cyflenwi yn y dyfodol erioed wedi bod mor fawr. Mae'r toriadau cynyddol ar wariant cyhoeddus a ysgogir gan bolisi Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn golygu bod yr her hon yn mynd yn fwy o hyd ac mae'n hanfodol i'r sector cyhoeddus wneud y defnydd gorau posibl o bob punt Gymreig.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno nifer o fentrau ymarferol i gynorthwyo'r rheiny sy'n gweithio tuag at ymateb i'r her ac yn eu plith mae'r Gronfa Buddsoddi i Arbed. Mae'r Gronfa'n darparu buddsoddiad tymor byr i ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus i'w helpu i gyflwyno ffyrdd newydd a/neu brofedig o weithio sy'n sicrhau gwelliannau, gan gynnwys enillion effeithlonrwydd.

Mae'r gronfa Buddsoddi i Arbed yn gwneud cyfraniad gwerthfawr trwy helpu darparwyr gwasanaethau cyhoeddus i ddatblygu a chynnal gwasanaethau effeithiol ac effeithlon o ansawdd da sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Drwy'r Gronfa rydym wedi buddsoddi £65 miliwn o arian ad-daladwy mewn 59 o brosiectau i wella gwasanaethau cyhoeddus. Gyda'i gilydd, mae'r prosiectau a gynorthwyir yn rhagamcanu manteision a gwelliannau sylweddol i wasanaethau cyhoeddus, yn enwedig arbedion blynyddol o ryw £97 miliwn o fewn 5 mlynedd o ddechrau, gyda rhagor o arbedion rheolaidd wedi hynny.

Gan fod angen parhau i ailedrych ar y ffordd y cyflenwir gwasanaethau cyhoeddus, mae angen o hyd i ddarparu cymorth i gynorthwyo â gweddnewid. Rwyf felly'n sicrhau bod y Gronfa Buddsoddi i Arbed ar gael eto ar gyfer prosiectau strategol i wella gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys y rhai a hybir gan Grŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus, ac ar 5 Tachwedd byddaf yn agor y Gronfa unwaith eto i geisiadau prosiect newydd.

Yn fy natganiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mehefin, dywedais pa mor bwysig yw dysgu o brosiectau presennol y Gronfa Buddsoddi i Arbed a bod angen casglu, rhaeadru a hyrwyddo gwybodaeth. Dylai'r gwasanaeth cyhoeddus ehangach elwa ar brofiadau a gwersi'r rheiny sydd wedi datblygu prosiectau gwella. Drwy gyhoeddi'r adroddiad hwn, fy nod yw helpu i godi'r ymwybyddiaeth gyffredinol o'r gwahanol fentrau sy'n cael eu cynorthwyo gan y Gronfa Buddsoddi i Arbed, ac annog y rheiny sy'n ymwneud â chyflenwi gwasanaethau cyhoeddus i gael gwybod mwy am fentrau penodol sy'n berthnasol ac y byddai o bosibl yn ddefnyddiol eu hefelychu yn y meysydd cyflenwi gwasanaethau maent yn gyfrifol amdanynt.



**Jane Hutt**
Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ
Hydref 2012



# Cynnwys

| | | tudalen |
|---|---|---|
| **Cyflwyniad** | | 1 |
| **Astudiaethau achos prosiectau** | | |
| Astudiaeth Achos 1: | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro – Gwell Gwasanaeth Cludiant Rhyddhau Cyflym | 3 |
| Astudiaeth Achos 2: | Effeithlonrwydd Ynni a Lleihau Carbon Wrecsam | 6 |
| Astudiaeth Achos 3: | 'Gwyrddio'r Ardd' – gosod paneli solar ffotofoltäig yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru | 9 |
| Astudiaeth Achos 4: | Uned Cymorth Rhagnodi Dadansoddol Cymru (WAPSU) i'r GIG | 12 |
| Astudiaeth Achos 5: | Bwrdd Iechyd Hywel Dda – Tîm Ymateb Acíwt (TYA) | 15 |
| Astudiaeth Achos 6: | System e-dreuliau'r GIG | 18 |
| Astudiaeth Achos 7: | Cyngor Sir y Fflint – Prosiect Gweithio Symudol | 20 |
| **Cyfeirlyfr prosiectau** | | 24 |
| **Gwybodaeth bellach a chysylltiadau** | | 34 |

# Cyflwyniad

Y cyhoeddiad hwn yw'r trydydd mewn cyfres sy'n darparu astudiaethau achos cryno a gwybodaeth am brosiectau i wella gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi cael eu cynorthwyo gan Gronfa Buddsoddi i Arbed Llywodraeth Cymru (y Gronfa).

Mae'r Gronfa ar gael ar ddisgresiwn i sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus a ariennir gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo â'u prosiectau gwelliant strategol lle bônt yn arwain at arbedion effeithlonrwydd a fydd yn rhyddhau symiau sylweddol o arian ac ar yr un pryd yn sicrhau gwasanaethau effeithiol sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Nod y Gronfa yw:

- cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus gwell yn unol ag agenda Llywodraeth Cymru ar effeithlonrwydd y gwasanaeth cyhoeddus a gwelliant ehangach;
- trawsnewid effeithlonrwydd gweithredol gwasanaethau cyhoeddus a chreu arbedion effeithlonrwydd a fydd yn rhyddhau symiau sylweddol o arian;
- hybu cydweithredu cadarnach ar draws sefydliadau a ffiniau gweinyddol lle bo hyn yn arwain at fanteision mesuradwy wrth gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus; a,
- hybu lledaenu'r gwersi sy'n cael eu dysgu a'r arferion gorau sy'n deillio o brosiectau.

Mae'r Gronfa'n targedu'r prosiectau hynny sy'n defnyddio dulliau profedig, lle bo tystiolaeth o lwyddiant wrth gyflenwi manteision sylweddol o'r blaen. Er enghraifft, prosiectau a hybir gan Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus, gan gynnwys y rheiny sy'n:

- gwella'r ffordd mae gwasanaethau cyhoeddus yn caffael a chomisiynu nwyddau a gwasanaethau ac yn rheoli'r farchnad;
- trawsnewid prosesau busnes;
- gwneud defnydd gwell o'r ystâd gyhoeddus ac ymagweddau a rennir at adeiladu;
- lleihau costau adrannau corfforaethol a busnes rheolaidd trwy gydwasanaethau ac ymagweddau cydweithredol eraill at effeithiolrwydd sefydliadol;
- sicrhau'r effeithlonrwydd mwyaf posibl trwy gyflwyno neu wella TGCh fel mecanwaith cyflenwi;
- ail-ddylunio gwasanaethau fel eu bod yn fwy effeithiol trwy hybu datblygu cydweithredu arloesol ar draws sefydliadau.

Darperir arian Buddsoddi i Arbed yn ddi-log ac mae hyblygrwydd o ran y cyfnod ad-dalu. Fel arfer mae'r buddsoddiadau a wneir yn talu'r costau refeniw sy'n gysylltiedig â gweithredu prosiect, ond gallai'r Gronfa hefyd gynorthwyo â rhai costau cyfalaf cysylltiedig. Mae cyfraniadau o hyd at 75% o'r costau gweithredu cymwys ar gael lle gwneir cais am fuddsoddiadau o £200,000 neu fwy.

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion y ffynhonnell arian ar gyfer Buddsoddi i Arbed. Mae hyn yn cynnwys arian a ddarperir gan Lywodraeth Cymru a gyhoeddwyd eisoes gan y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ ac arian wedi'i ailgylchu sy'n deillio o ad-dalu buddsoddiadau prosiectau presennol Buddsoddi i Arbed. £18.3 miliwn yw cyfanswm y cynlluniau newydd ar gyfer 2013-14, y mae £15 miliwn ohono ar gael ar gyfer buddsoddiadau newydd, gyda'r gweddill ar gael i gynorthwyo ag ymrwymiadau i brosiectau sy'n bodoli eisoes.

## Manylion ariannol Cronfa Buddsoddi i Arbed 2013-14 i 2014-15

| **Arian refeniw sydd ar gael** | **(£000)** | **(£000)** |
|---|---|---|
| | **2013-14 Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd** | **2014-15 Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Dangosol** |
| Cronfa Buddsoddi i Arbed (o Gronfeydd Wrth Gefn) | 2,000 | 8,000 |
| Ad-dalu Buddsoddiadau Buddsoddi i Arbed | | |
| Ad-daliadau sy'n gysylltiedig â phrosiectau Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG | 10,203 | 6,597 |
| Ad-daliadau sy'n gysylltiedig â PSBA o Brif Grŵp Gwariant Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth | 2,929 | 1,400 |
| Ad-daliad sy'n gysylltiedig â sefydlu Corff Adnoddau Naturiol Cymru o Brif Grŵp Gwariant Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy | 0 | 1,512 |
| **Cyfanswm Cyllideb Refeniw Buddsoddi i Arbed** | **15,132** | **17,509** |

| **Arian cyfalaf sydd ar gael** | **(£000)** | **(£000)** |
|---|---|---|
| | **2013-14 Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd** | **2014-15 Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Dangosol** |
| **Cyfanswm Arian Cyfalaf Buddsoddi i Arbed sydd ar gael (i)** | **3,144** | **2,985** |

(i) Mae'r gyllideb gyfalaf a ddangosir yn nyraniadau gwariant Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2013-14 yn adlewyrchu'r driniaeth cyfrifyddu ar gyfer ad-daliadau benthyciadau. Mae'r rhan fwyaf yn ad-daliadau o brosiectau llywodraeth leol.

# Astudiaeth Achos 1: Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro – Gwell Gwasanaeth Cludiant Rhyddhau Cyflym

## Nod y prosiect

Gwella gwasanaethau cludo cleifion ysbyty mewn achosion nad ydynt yn rhai brys trwy dreialu model cyflenwi dielw oedd yn canolbwyntio ar y cleifion ac yn datblygu trefniadau rheoli a chydgysylltu cryfach rhwng darparwyr y sector cyhoeddus a'r 3ydd sector.

Prif amcanion y gwell gwasanaeth rhyddhau cyflym oedd:

- gwella profiad y cleifion;
- lleihau oedi wrth i gleifion aros am gludiant rhyddhau;
- rhyddhau gwelyau;
- sicrhau gwerth am arian; a,
- sicrhau bod y cludiant yn ymateb i flaenoriaethau clinigol.

## Trosolwg o'r prosiect

Deilliodd y prosiect peilot o Adolygiad Griffiths o gludiant cleifion mewn achosion nad ydynt yn rhai brys, a dynnodd sylw at nifer o broblemau pan gyflwynwyd adroddiad i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Ebrill 2010:

- nid oedd y gwasanaethau'n canolbwyntio digon ar y cleifion ac roeddent yn amrywio o ran eu hansawdd;
- roedd y gwasanaethau'n ddarniog ac yn tanberfformio; ac,
- roedd cludiant cleifion mewn achosion nad ydynt yn rhai brys heb Gytundebau Lefel Gwasanaeth a threfniadau rheoli perfformiad cadarn.

Argymhellodd yr adolygiad roi pedwar cynllun peilot ar waith ym maes cludo cleifion mewn achosion nad ydynt yn rhai brys er mwyn canfod dulliau seiliedig ar dystiolaeth o wella gwasanaethau i gleifion. O gofio bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cael problemau wrth ryddhau a throsglwyddo cleifion yn amserol roedd yn awyddus i gymryd rhan mewn treialu model menter gymdeithasol o gyflenwi gwasanaeth cludo cleifion mewn achosion nad ydynt yn rhai brys. Mae tri chynllun peilot arall yn yr un maes wedi cael eu sefydlu i ystyried modelau gwahanol o gyflenwi gwasanaethau.

Mae'r cynlluniau peilot ym Myrddau Iechyd Hywel Dda, Cwm Taf, Betsi Cadwaladr a Chaerdydd a'r Fro i gyd wedi cael arian dechrau tuag at reoli'r prosiectau. Dwy flynedd yn ddiweddarach, mae'r prosiectau bellach yn arwain at: gwell gweithio mewn partneriaeth gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST); darpariaeth gwasanaethau gwell ac ehangach; a phrofiad i'r cleifion y gellir dangos ei fod yn well. Mae arbedion o'r dull newydd yn dechrau dod i'r amlwg hefyd, a rhagamcanir y byddant yn fwy na £900,000 y flwyddyn pan gaiff prosiectau peilot y rhaglen eu rhoi ar waith yn llawn. Mae cymorth i'r cynlluniau peilot yn cael ei ddarparu o'r Gronfa Buddsoddi i Arbed ac mae £430,000 wedi cael eu buddsoddi hyd yma.

## Cyflawni amcanion y prosiect

Rhoddwyd cynllun peilot Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar waith mewn tri cham:

- Cam 1 – dechreuodd hwn ym mis Rhagfyr 2010 gyda St John Cymru yn darparu cludiant ar gyfer achosion heb eu cynllunio o ryddhau a throsglwyddo cleifion, ar y diwrnod;

- Cam 2 – dechreuodd hwn ym mis Ebrill 2011. Cafodd y gwasanaeth ei ymestyn i gynnwys yr holl achosion wedi'u cynllunio o ryddhau cleifion o Ysbyty Athrofaol Cymru;
- Cam 3 – dechreuodd hwn ym mis Medi 2011 wrth gyflwyno'r gwasanaeth rhyddhau a throsglwyddo i safleoedd ysbyty ar draws ardal y bwrdd iechyd.

## Cyflawniadau a buddion allweddol hyd yma

- Mae oriau gweithredu ac oriau trefnu'r gwasanaeth wedi cael eu hymestyn er mwyn sicrhau darpariaeth cludiant y tu allan i oriau.
- Mae'r cynllun peilot yn darparu gwasanaeth cludo penodol ar gyfer achosion wedi'u cynllunio o ryddhau cleifion ar draws y Bwrdd Iechyd Prifysgol rhwng 10.00 a 18.00, o ddydd Llun i ddydd Gwener.
- Darperir gwasanaeth mwy hyblyg ac o ansawdd gwell am gost debyg.
- Rhagamcanir y bydd y contract ar gyfer darparu cludiant mewn achosion o ryddhau cleifion sydd heb eu cynllunio ac nad ydynt yn rhai brys a ddyfarnwyd i St John Cymru yn arbed £58,000 y flwyddyn dros y ddwy flynedd nesaf. Hefyd, bydd gwelliannau o ran rhyddhau cleifion yn amserol yn arwain at arbedion cysylltiedig â rhyddhau gwelyau'n gynnar.
- Mae'r gwasanaeth newydd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer atgyfeiriadau contractiol ychwanegol y codwyd amdanynt o'r blaen yn ychwanegol at y gweithgarwch o dan y contract.
- Mae'r gwasanaeth yn cynnwys cludiant ar gyfer trosglwyddiadau bariatrig, y codwyd amdanynt ar wahân o'r blaen.
- Mwy o hyblygrwydd yn y ffordd y darperir y gwasanaeth gan gynnwys trefniadau hyblyg o ran criw un neu ddau weithiwr.
- Ymestyn oriau gweithredu.
- Sefydlwyd dangosyddion perfformiad allweddol a threfniadau i'w monitro.
- Llai na 30 munud yw'r amser mae claf sy'n cael ei ryddhau'n aros am gerbyd, ar gyfartaledd.
- Mae'r gwasanaeth yn ymateb i anghenion cleifion. Er enghraifft, mewn rhai atebion i arolygon cleifion roedd cyfeiriadau at fod yn oer yn ystod teithiau. Bellach mae St John Cymru yn cynnig blancedi i'r holl gleifion.
- Mae arolygon annibynnol o foddhad cleifion a gynhaliwyd gan Gyngor Iechyd Cymuned Caerdydd a'r Fro yn cadarnhau bod y gwasanaeth a ddarperir o ansawdd da a bod llawer o foddhad ymysg cleifion.

*"Mae arian Buddsoddi i Arbed wedi bod yn gwbl hanfodol i roi'r pedwar cynllun peilot cludo cleifion ar waith yn dilyn f'adolygiad yn 2008. Ni fyddai dim o hyn wedi bod yn bosibl heb y nawdd cychwynnol a ddarparwyd gan y Gronfa. Mae Gweinidogion wedi ymweld â chynllun peilot Caerdydd a'r Fro yn ddiweddar ac mae'r cynllun wedi dangos gwelliannau i wasanaethau yn sgil dull uchelgeisiol o gludo cleifion sy'n cael eu rhyddhau, sy'n glod enfawr i'r bartneriaeth rhwng St John Cymru, WAST a'r Bwrdd Iechyd."*

Win Griffiths, Cadeirydd, Bwrdd Rhaglen Genedlaethol Cludo Cleifion heblaw Cleifion Brys



*"Mae cludiant cleifion mewn achosion nad ydynt yn rhai brys yn darparu gwasanaeth hanfodol i filoedd o gleifion ledled Cymru gyfan. Yn ddiau mae'r cynllun peilot hwn wedi bod yn llwyddiant ysgubol ac wedi gwneud gwahaniaeth go iawn i ofal cleifion. Mae'r gwasanaeth cludiant gwell y mae Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd a'r Fro wedi'i ddatblygu gyda St John Cymru yn dangos pa mor hanfodol yw hi i weithio mewn partneriaeth a rhannu adnoddau."*

Keith Dunn, Prif Weithredwr St John Cymru

## Dysgu

**Beth weithiodd yn dda?**

- Cefnogaeth gref ac ymarferol oddi wrth Fwrdd y Rhaglen Genedlaethol Cludo Cleifion heblaw Cleifion Brys, gweithgor y cynllun peilot a Llywodraeth Cymru.
- Ymgysylltu effeithiol â rhanddeiliaid allweddol.
- Dealltwriaeth dda o'r problemau oedd yn bodoli eisoes gyda'r ddarpariaeth cludiant.
- Ymgysylltu ehangach gyda chynlluniau peilot eraill cludiant cleifion mewn achosion nad ydynt yn rhai brys.
- Gweithio partneriaethol nodedig.

**Beth allai fod wedi gweithio'n well?**

- Achoswyd rhywfaint o oedi ar y dechrau gan ddiffyg ymwybyddiaeth o reoliadau a gweithdrefnau caffael.
- Byddai wedi bod o gymorth cael cytundeb cadarn ar faterion ariannol cyn dechrau'r cynllun peilot.
- Cael dealltwriaeth glir o gostau a darpariaeth gwasanaethau'r gwasanaeth gwreiddiol.

## Y camau nesaf

Mae gwerthusiad annibynnol o'r cynlluniau peilot wedi cael ei wneud a disgwylir y bydd adroddiad arno ar gael yn ddiweddarach ym mis Hydref 2012.

Rhagwelir y bydd y cynllun peilot yn dod yn rhan annatod o ddarpariaeth cludiant y Bwrdd Iechyd o fis Ebrill 2013 ymlaen.

## Cyswllt i gael mwy o wybodaeth

Gydag unrhyw ymholiadau neu i gael mwy o wybodaeth am y prosiect cysylltwch â Colin McMillan ar rif ffôn 02920 746388 neu e-bost – colin.mcmillan@wales.nhs.uk

# Astudiaeth Achos 2: Effeithlonrwydd Ynni a Lleihau Carbon Wrecsam

## Nod y prosiect

Roedd y prosiect hwn yn rhan allweddol o raglen waith ehangach i leihau'r defnydd o ynni a lleihau allyriadau carbon, sicrhau'r effeithlonrwydd ynni gorau posibl a defnyddio ynni adnewyddadwy lle bo modd ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

## Trosolwg o'r prosiect

Roedd y prif ysgogwyr ar gyfer y prosiect hwn yn cynnwys cost gynyddol trydan a thanwyddau ffosil, cosbau ariannol am allyriadau carbon o dan Gynllun Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon, targedau lleihau Nwyon Tŷ Gwydr a osodwyd gan Ddeddf Newid Hinsawdd 2008, ac effeithiau amgylcheddol y newid yn yr hinsawdd.

Amcanion allweddol prosiect y Cyngor oedd:

- lleihau allyriadau carbon a'r defnydd o ynni'n sylweddol;
- rheoli costau ynni cynyddol mewn ffordd effeithiol er mwyn lleihau effeithiau negyddol posibl ar gyflenwi gwasanaethau;
- dylanwadu'n gadarnhaol ar ymddygiad cyflogeion yn y gwaith ac mewn mannau eraill;
- cyflawni ein rôl arweiniad cymunedol er mwyn dylanwadu'n gadarnhaol ar bartneriaid a'r cyhoedd; a,
- bod yn arweinydd arfer gorau ar draws y Deyrnas Unedig.

## Cyflawni amcanion y prosiect

Dechreuodd y prosiect yn 2009/10 trwy sefydlu Bwrdd a Thîm Prosiect a gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Garbon a'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, i ddatblygu rhestr yn ôl trefn blaenoriaeth o brosiectau effeithlonrwydd ynni. Cafodd y £930,000 o arian Buddsoddi i Arbed Llywodraeth Cymru a ddyfarnwyd ei ddefnyddio i gyflawni amrywiaeth o brosiectau dros 2010/11 a 2011/12, i leihau'r defnydd o ynni a lleihau allyriadau carbon gan gynnwys:

- boeleri newydd a gwelliannau i foeleri i leihau'r defnydd o nwy, olew ac LPG mewn ysgolion;
- gwelliannau i oleuadau er mwyn defnyddio llai o drydan mewn ysgolion, swyddfeydd y Cyngor a chanolfannau hamdden;
- optimeiddio foltedd er mwyn defnyddio cyn lleied o drydan ag y bo modd yn swyddfeydd y Cyngor;
- meddalwedd rheoli pŵer cyfrifiaduron personol er mwyn defnyddio llai o drydan yn swyddfeydd y Cyngor;
- uned gwres a phŵer cyfunedig er mwyn defnyddio llawer llai o drydan mewn canolfan hamdden;
- paneli solar ffotofoltäig er mwyn cynhyrchu trydan adnewyddadwy i ddarparu pŵer i nifer o ysgolion peilot;
- gwelliannau i oleuadau stryd a phylu goleuadau'n rhannol yn y nos er mwyn defnyddio llai o drydan ar draws rhwydwaith goleuadau stryd y Cyngor;

- hyfforddi gyrwyr i yrru mewn ffordd rad ar danwydd er mwyn defnyddio llai o danwydd ar draws fflyd cerbydau'r Cyngor; ac,
- ymgyrch cyfathrebu 'People Power' i annog pawb yn y Cyngor gan gynnwys staff, Aelodau ac ysgolion, i newid eu hymddygiad er mwyn defnyddio llai o ynni.

## Cyflawniadau a buddion allweddol hyd yma

Mae'r Cyngor wedi sicrhau lleihad o fwy na 30% yn ei allyriadau carbon ers 2005/06 (blwyddyn sylfaen). Sicrhawyd y lleihad mwyaf mewn meysydd gweithgarwch sy'n allyrru'r mwyaf o garbon a lle mae'r rhan fwyaf o brosiectau effeithlonrwydd ynni wedi cael eu gweithredu hyd yma. Mae'r rhain yn cynnwys gwastraff (lleihau allyriadau 65%), adeiladau annomestig (lleihau allyriadau 30%), a thai (lleihau allyriadau 19%).




Mae arian Buddsoddi i Arbed wedi cael ei ddefnyddio'n bennaf i weithredu prosiectau effeithlonrwydd ynni yn gyflymach ar draws adeiladau annomestig y Cyngor. Mae hyn wedi sicrhau bod allyriadau carbon wedi cael eu lleihau 12% yn y maes hwn ers 2009/10. Mae hefyd wedi osgoi cynnydd amcanol mewn costau o ychydig llai na £1.4 miliwn am ynni dros yr un cyfnod.

Mae'r cyflawniadau a'r buddion allweddol eraill hyd yma'n cynnwys:

- cael ein gosod yn y 10% uchaf o 2016 o sefydliadau yn rhestr Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Ymrwymiad Lleihau Carbon a gyhoeddwyd yn 20011/12. Roedd y Cyngor yn 6ed o 193 o awdurdodau lleol a'r uchaf o'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru;
- sicrhau bod allyriadau wedi cael eu lleihau 11.8% o adeiladau annomestig dros 2011/12 o dan Ddangosydd Perfformiad Allweddol EEF002 Llywodraeth Cymru;
- cyfran yr adeiladau annomestig y dyfarnwyd graddfeydd A i C Tystysgrif Ynni i'w Harddangos yn codi i 46% yn 2011/12, gyda'r gwelliannau mwyaf yn cael eu gweld lle mae prosiectau fel gosod boeleri newydd a gwella goleuadau wedi cael eu cyflawni; a,
- chyflawni Safon yr Ymddiriedolaeth Garbon, sy'n cydnabod sefydliadau am fesur, rheoli a lleihau allyriadau carbon ar draws eu gweithrediadau, ac ymrwymo i barhau i'w lleihau.

## Dysgu

### Beth weithiodd yn dda?

- Arweiniad cryf ac ymrwymiad oddi wrth uwch wleidyddion a gweithredwyr.
- Ysgogiad gan Fwrdd y Prosiect Carbon a thîm y Prosiect Carbon i sicrhau newid sylweddol.
- Gwaith da wrth reoli prosiectau er mwyn sicrhau y cyflawnwyd y cynllun yn unol â'r gyllideb ac y sicrhawyd buddion disgwyliedig o ran carbon a buddion ariannol.

### Beth allai fod wedi gweithio'n well?

- Cynnwys mwy o gapasiti wrth gefn yn y prosiect i ganiatáu ar gyfer ymarferion caffael.
- Gwell cynllunio parhad ar gyfer newidiadau i'r swyddogion allweddol oedd yn gweithio ar y prosiect.

## Y camau nesaf

Er mwyn cyrraedd ein targed o leihau allyriadau carbon 50% ar draws gweithgareddau'r Cyngor erbyn 2015/16 (blwyddyn sylfaen 2005/06) bydd angen rhaglen barhaus o brosiectau uchelgeisiol i leihau allyriadau carbon ar draws tai, adeiladau annomestig a gwastraff, yn ogystal â meysydd eraill gan gynnwys goleuadau stryd, fflyd cerbydau a theithiau busnes. Bellach mae'r Cyngor wedi sefydlu cyllideb buddsoddi i arbed fewnol, a gaiff ei defnyddio i gyflawni amrywiaeth o brosiectau effeithlonrwydd ynni yn y meysydd hyn gan gynnwys prosiectau newid ymddygiad, buddsoddi i arbed, rheoli asedau a thechnoleg adnewyddadwy.

## Cyswllt i gael mwy o wybodaeth

Gydag unrhyw ymholiadau neu i gael mwy o wybodaeth am y prosiect ewch i'r wefan ar peoplepowerwrexham.org neu cysylltwch â Renia Kotynia ar rif ffôn 01978 297208 neu e-bost renia.kotynia@wrexham.gov.uk

# Astudiaeth Achos 3: 'Gwyrddio'r Ardd' – gosod paneli solar ffotofoltäig yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

## Nod y prosiect

Nod y prosiect oedd lleihau ôl troed carbon a chostau gweithredu Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, a bod yn esiampl i'r cyhoedd sy'n ymweld â ni gan gefnogi ac ysgogi camau tuag at weithredoedd cadwraethol ac ymddygiadau cynaliadwy.

## Trosolwg o'r prosiect

Ers ei dechrau mae cynaliadwyedd wedi bod yn egwyddor weithredu allweddol i Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. Yn dilyn adolygiad ynni gan yr Ymddiriedolaeth Garbon nodwyd bod gosod paneli solar ffotofoltäig yn rhan bwysig o raglen reoli ynni barhaus. Mewn termau ymarferol dewiswyd gosod rhesaid o baneli solar ffotofoltäig 50 KWt fel y prosiect mwyaf addas a mwyaf effeithiol yn economaidd i'w gyflawni. Er mwyn darparu adnodd ymgysylltu â'r cyhoedd ac adnodd enghreifftiol mae'r gosodiad yn cynnwys rhesaid cae 46 KWt a rhesaid to 4 KWt sy'n gydnaws â gosodiadau ar raddfa ddomestig. Gwnaethpwyd y prosiect hwn yn bosibl trwy'r cyfle a gynigiwyd gan Gronfa Buddsoddi i Arbed Llywodraeth Cymru trwy ad-dalu cyfalaf y buddsoddiad dros gyfnod y cytunwyd arno.



Rhesaid cae paneli solar ffotofoltäig – Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

*llun Clive Edwards*

Mae gan safle'r Ardd ryw 560 o erwau, gan gynnwys darnau o dir sy'n wynebu'r de yn agos i'w phrif adeiladau. Darparodd hyn gyfleoedd delfrydol i osod paneli solar ffotofoltäig i gynhyrchu ynni.

Rhagwelwyd y byddai prosiect a gâi ei gyflawni'n dda yn:

- darparu cyfle ar gyfer gosodiad enghreifftiol yn rhoi tystiolaeth o gyflawniadau'r Ardd ym maes cynaliadwyedd;
- gwneud defnydd da o'r adnoddau tir oedd ar gael;
- gwneud yr Ardd yn llai dibynnol ar danwyddau ffosil;
- lleihau costau rhedeg y busnes; a,
- chreu cyfatebiad perffaith o gyflenwad a galw yn nhermau cynhyrchu ynni ac anghenion yr Ardd o ran defnyddio ynni.

## Cyflawni amcanion y prosiect

Datblygodd yr Ardd gysyniad y prosiect yn hydref 2010 a gwnaethpwyd cais i’r Gronfa Buddsoddi i Arbed ym mis Ebrill 2011. Cymeradwywyd £90,000 o gyllid ym mis Mai 2011 a bwriwyd ymlaen â’r fanyleb, y prosesau tendro a’r cais cynllunio. Roedd y prosiect wedi’i gyflawni’n llwyr ac yn gweithredu erbyn 1 Mawrth 2012.

## Cyflawniadau a buddion allweddol hyd yma

Mae’r prosiect hwn wedi cyflawni:

- gosodiad llwyddiannus sy’n gydnaws ag ethos yr Ardd ac amwynder gweledol y safle;
- cyflenwi, yn ei 6 mis cyntaf, mwy na 30,000 KWt o drydan solar ffotofoltäig, y mae’r Ardd wedi defnyddio 90% ohono;
- cynhyrchu incwm o £10,000 trwy’r Tariff Cyflenwi Trydan;
- arbedion ariannol, yn ystod y cyfnod hwn, o ryw £2,160 o gostau trydan;
- ffrwd incwm llif arian dibynadwy yn y dyfodol; rhagamcanir elw ariannol o £481,250 dros 25 mlynedd;
- gosodiad enghreifftiol sy’n rhoi tystiolaeth o gyflawniadau gwyrdd yr Ardd;
- cyfleuster a ddefnyddir ar gyfer addysg Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg gan ysgolion ar gyrsiau ‘Technoleg Werdd’;
- rhan integredig o’n gwaith cyffredinol o ymgysylltu ag ymwelwyr, gan gynnwys ein ‘Llwybr Cynaliadwyedd’ a sgyrsiau sy’n ysgogi camau cadarnhaol i fynd i’r afael â’r newid yn yr hinsawdd;
- diddordeb ac adborth cadarnhaol ar y prosiect gan ymwelwyr, sefydliadau eraill a phartneriaid; a
- yn y tymor hir, peidio â defnyddio maint sylweddol o danwydd ffosil, yn ôl cyfrifiadau a dderbynnir yn gyffredinol.

## Dysgu

### Beth weithiodd yn dda?

- Rheoli prosiect a rheoli ariannol da – prydlon, yn unol â’r gyllideb, ac yn cynhyrchu elw effeithiol.
- Perthynas weithio ragorol rhwng yr holl bartneriaid allweddol gan gynnwys defnyddio’r arian Buddsoddi i Arbed yn gyflym, er mwyn sicrhau y cyflawnwyd y prosiect yn unol ag amserlen dynn a chost effeithiol.
- Brwdfrydedd a diddordeb go iawn yn y prosiect gan yr holl randdeiliaid – ymddiriedolwyr, staff, yr Ymddiriedolaeth Garbon a Llywodraeth Cymru.
- Cyflawni amcanion y prosiect ar unwaith ar ôl gosod yr offer.

### Beth allai fod wedi gweithio’n well?

- Roedd y gofynion a’r manylion i gydymffurfio â’r caniatâd cynllunio yn gymhleth ar gyfer y safle hwn.
- Roedd cythrwfl mewn perthynas â threfniadau’r Llywodraeth o ran y Tariff Cyflenwi Trydan yn her.

## Y camau nesaf

Mae hwn wedi bod yn brosiect llwyddiannus iawn a’r cyntaf o nifer o gynlluniau ynni adnewyddadwy y mae’r Ardd yn bwrw ymlaen â hwy. Mae prosiect mawr i osod boeler biomas wedi cael ei gyflawni ers hynny, ac ymchwilir i gyfleoedd ar gyfer gwresogi gyda gwres o’r aer hefyd fel ffordd o ddefnyddio llai byth o danwydd ffosil a lleihau ein hôl troed carbon.

Fel cam datblygu canlynol rydym yn bwriadu gosod dull amser real o arddangos a monitro cynhyrchu trydan er mwyn cyfleu’n well i’r cyhoedd sy’n ymweld â’r Ardd faint o drydan solar rydym yn ei gynhyrchu. Mae yna gynlluniau hefyd i ddefnyddio’r wybodaeth am gynhyrchu ynni fel adnodd addysgu a dysgu Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg. Y bwriad yw y bydd hyn yn galluogi ysgolion ac eraill i gyfrifo’r cyfraniad mae’r offer solar ffotofoltäig yn ei wneud i ddefnydd yr Ardd o ynni, yn arddangos patrwm cynhyrchu, ac yn mapio effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd harneisio pŵer solar ffotofoltäig.

## Cyswllt i gael mwy o wybodaeth

Gydag unrhyw ymholiadau neu i gael mwy o wybodaeth am y prosiect ewch i’r wefan ar http://www.gardenofwales.org.uk/ neu cysylltwch â Clive Edwards ar rif ffôn 01558 667109 neu e-bost – clive.edwards@gardenofwales.org.uk

# Astudiaeth Achos 4: Uned Cymorth Rhagnodi Dadansoddol Cymru (WAPSU) i'r GIG

## Nod y prosiect

Datblygu Uned Cymorth Rhagnodi Dadansoddol Cymru i'r GIG i wneud dadansoddiadau o ddata rhagnodi a defnyddio'r wybodaeth i hybu rhagnodi diogel sy'n effeithiol yn glinigol ac yn gost effeithiol ledled Cymru.

## Trosolwg o'r prosiect

Yn 2009-10, gwnaeth Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTC) – Partneriaeth Meddyginiaethau Cymru (WMP) gynt – gais llwyddiannus am £352,000 i Gronfa Buddsoddi i Arbed Llywodraeth Cymru. O ganlyniad, sefydlwyd Uned Cymorth Rhagnodi Dadansoddol Cymru (WAPSU) yn AWTTC i ymgymryd â mentrau a fyddai'n arwain at ryddhau arbedion sylweddol yng nghyllideb rhagnodi'r GIG, y rhagwelwyd y byddent tua £4.8 miliwn erbyn 2011-12.

Cafodd pedair menter rhagnodi allweddol eu datblygu i fonitro'r defnydd o feddyginiaethau a gymeradwywyd neu nas cymeradwywyd gan Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan ac mae'r tair menter therapiwtig arall (sydd i gyd yn Ddangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol) i hybu rhagnodi'r canlynol mewn ffordd ddiogel ac effeithiol:

- cyffuriau gwrthlidiol ansteroidaidd;
- atalyddion pwmp proton; a,
- chyffuriau cwsg a chyffuriau lleihau gorbryder.

## Cyflawni amcanion y prosiect

Rôl WAPSU ac AWTTC oedd darparu adnoddau gwybodaeth, addysg a hyfforddiant (e.e. pecynnau archwilio) i gynorthwyo cydweithwyr yn GIG Cymru ym meysydd perthnasol rhagnodi.

Ar y dechrau, cafodd data rhagnodi ei ddadansoddi yn ardaloedd y saith bwrdd iechyd lleol hyd at ardal ymarferydd cyffredinol. Hefyd, dosbarthwyd holiaduron i ymarferwyr cyffredinol i ganfod arferion rhagnodi a pha gymorth arall y byddai ei angen o bosibl. Yn achos cyffuriau cwsg a chyffuriau lleihau gorbryder, cynhaliwyd ymarfer meincnodi hefyd yng ngogledd ddwyrain Lloegr.

Mae gwaith cyfleu gwybodaeth o bob un o'r pedair menter wedi cael ei wneud gyda Byrddau Iechyd yng Nghymru ac mae'r uned newydd wedi darparu offer a chymorth archwilio i hybu rhagnodi priodol a thargededig.

## Cyflawniadau a buddion allweddol hyd yma

- Ers iddynt gael eu cyflwyno mae'r mentrau rhagnodi allweddol yn dangos budd i GIG Cymru fwyfwy, a hynny o safbwynt ansawdd ac o safbwynt cost.
- Mae'r holl Fyrddau Iechyd wedi llwyddo i sicrhau bod y practisau ymarferwyr cyffredinol oedd yn rhagnodi'r mwyaf o gyffuriau cwsg a chyffuriau lleihau gorbryder bellach yn rhagnodi llai ohonynt.

- Sicrhawyd gwerth £5.8 miliwn o arbedion cost rhwng 2009-10 a 2011-12 ar gyfer y tair menter therapiwtig, sy’n rhyw £970,000 yn fwy na’r arbedion a ragwelwyd, sef £4.8 miliwn. Roedd y cyfanswm a arbedwyd gan bob menter rhwng 2009-10 a 2011-12 fel a ganlyn:
  - cyffuriau cwsg a chyffuriau lleihau gorbryder – £1,261k (23.08%);
  - cyffuriau gwrthlidiol ansteroidaidd – £1,078k (15.69%); a,
  - rhagnodi atalyddion pwmp proton – £3,490k (26.14%).



Uned Cymorth Rhagnodi Dadansoddol Cymru i’r GIG

- Mae’r fenter wedi cyflawni canlyniadau cadarnhaol, sy’n gysylltiedig â mwy o fudd clinigol yn ogystal ag arbedion cost mwy nag a ragwelwyd yn wreiddiol. Mae cyflawni hyn yn adlewyrchu’r gwaith caled sydd wedi cael ei wneud yn y meysydd hyn ledled GIG Cymru gan amrywiaeth fawr o weithwyr iechyd proffesiynol yn y Byrddau Iechyd, yn benodol (ond nid yn unig) y rheiny sy’n rhagnodi meddyginiaethau.

## Dysgu

### Beth weithiodd yn dda?

- Cyfathrebu gyda rhanddeiliaid trwy fynd i Bwyllgorau Meddyginiaethau a Therapiwteg. Mae hyn wedi ei gwneud yn bosibl cynnal trafodaethau manwl yn lleol am bwysau rhagnodi a’r problemau mae ymarferwyr cyffredinol yn eu hwynebu, ac wedi sicrhau dealltwriaeth o sut i dargedu gweithdai a’r canllawiau newydd.
- Mae’r canllawiau newydd wedi cael derbyniad da gan ymarferwyr cyffredinol ac roedd arolwg adborth o ymarferwyr cyffredinol ar y prosiect yn gadarnhaol iawn.

### Beth allai fod wedi gweithio’n well?

- Er mwyn sicrhau y cyflawnir buddion llawn y fenter, mae strategaeth gweithredu i’r Byrddau Iechyd, ac adnoddau i helpu i gwblhau gwaith cydgysylltu, yn hanfodol.

## Y camau nesaf

Roedd y llwyddiant wrth sicrhau gwelliannau yn y tri maes rhagnodi cyntaf yn ffactor pwysig ym mhenderfyniad Llywodraeth Cymru i gefnogi parhau â’r Uned y tu hwnt i’w chyfnod peilot cychwynnol. Yn awr bydd yr Uned yn parhau i fonitro’r defnydd o feddyginiaethau

yng Nghymru dros y tair blynedd nesaf ac yn darparu gwybodaeth i ragnodwyr ac eraill sy'n ymwneud â monitro'r ffordd y gweithredir ac y defnyddir triniaethau newydd.

Mae rhagor o waith i ddatblygu warws data Medusa gyda'r Uned Cymorth Rhagnodi (PSU), yn unol â'r System Dadansoddi Gymharol ar gyfer Archwilio Rhagnodi (CASPA) yn parhau. Dylai'r gwaith hwn alluogi gwaith monitro ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd gan ddefnyddio un system.

Bydd rhagor o waith monitro'n cael ei wneud ar y tri maes rhagnodi fel rhan o'r Dangosyddion Cenedlaethol a chymaryddion a gwaith monitro gwir effaith gyllidebol (o'i chymharu â'r effaith gyllidebol a ragwelir gan y cwmni) y meddyginiaethau a argymhellir gan Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG).

Mae gweithgarwch arall yn y dyfodol yn cynnwys: cysylltu data derbyniadau er enghraifft yn ymwneud â thoriadau cluniau a gwaedu gastroberfeddol mewn cysylltiad â defnydd priodol o bensodiasepin yn yr achos cyntaf ac atalyddion pwmp proton yn yr ail; lansio pecyn addysgol i gynorthwyo Byrddau Iechyd wrth iddynt weithredu'r fenter atalyddion pwmp proton; a chyflwyniad poster ar y mentrau Buddsoddi i Arbed yn cael ei arddangos yng Nghynhadledd Fferyllol Prydain.

## Cyswllt i gael mwy o wybodaeth

Gydag unrhyw ymholiadau neu i gael mwy o wybodaeth am y prosiect cysylltwch â Kath Haines, Pennaeth WAPSU, ar rif ffôn 029 2071 6900 neu e-bost AWTTC@wales.nhs.uk

# Astudiaeth Achos 5: Bwrdd Iechyd Hywel Dda – Tîm Ymateb Acíwt (TYA)

## Nod y prosiect

Darparu ymyriadau nyrsio acíwt am amser cyfyngedig yn y gymuned i gleifion a fyddai fel arall wedi gorfod cael triniaeth fel cleifion mewnol mewn gwely mewn ysbyty.

## Trosolwg o'r prosiect

Yn genedlaethol ac yn lleol, mae strategaethau'n hybu darparu gofal yn nes at gartref claf. Ceisiodd fframwaith pum mlynedd Bwrdd Iechyd Hywel Dda o'r enw "Y Gofal Iawn, yn y Lle Iawn, ar yr Amser Iawn...bob tro" yn 2010 fynd i'r afael â phryderon ynglŷn â phoblogaeth sy'n heneiddio gyda chyflyrau cronig ac anghenion iechyd cynyddol, costau cynyddol triniaeth, heintiau megis MRSA a chleifion gofal lliniarol yn dewis cael gofal yn hafan eu cartrefi eu hunain. Un o amcanion allweddol y fframwaith hwn oedd creu gwasanaeth iechyd integredig 'dan arweiniad cymunedol' gan gynnwys cyflwyno Timau Ymateb Acíwt (TYA).

Sefydlwyd y prosiect TYA i ddarparu gwasanaeth ymyriadau nyrsio acíwt mewn modd prydlon 24 awr y dydd. Mae'r timau'n cynnwys nyrsys a gweithwyr cymorth gofal iechyd cymwys sy'n cynnig gwasanaeth i gleifion yng nghysur eu cartrefi eu hunain. Maent yn cynnig ymyriadau nyrsio acíwt am gyfnod cyfyngedig, fel arfer dim mwy na 10 diwrnod. Mae'r ymyriadau'n cynnwys gwrthfiotigau mewnwythiennol, therapïau ail-hydradu, trallwysiadau gwaed a'r gallu i gael cymorth nyrsio'n gyflym ar gyfer cleifion gofal lliniarol a rhai sy'n derfynol wael.

Rhagwelwyd y byddai'r prosiect TYA yn helpu i sicrhau:

- lleihad yn nifer y derbyniadau meddygol brys i ysbytai;
- lleihad yn hyd arosiadau cleifion yn yr ysbyty;
- gwell gofal yn cael ei roi i gleifion yn eu cartrefi eu hunain;
- darparu Gwasanaeth Ymateb Acíwt effeithiol a theg ar draws ardal y bwrdd iechyd;
- mwy o foddhad cleifion; a,
- parhau i hyfforddi a datblygu timau nyrsio cymunedol.

## Cyflawni amcanion y prosiect

Mae £1.1 miliwn o arian o'r Gronfa Buddsoddi i Arbed gan Lywodraeth Cymru yn 2010 wedi'i gwneud yn bosibl cyflwyno'r prosiect TYA fesul cam. Mae'r buddsoddiad wedi cryfhau'r tîm oedd yn bodoli eisoes yn Sir Gaerfyrddin, sydd wedi dyblu ei gapasiti, ac mae timau newydd wedi cael eu cyflwyno yn Sir Benfro a Cheredigion.

Mae'r TYA yn rhoi therapïau mewnwythiennol ar gyfer amrywiaeth fawr o anhwylderau acíwt a chronig y frest. Mae'r TYA wedi meithrin cysylltiadau da gyda'r Uned Penderfyniadau Clinigol Oedolion, timau anadlu ac ymarferwyr nyrsio cyflyrau cronig i ganfod cleifion a all ddechrau cael triniaeth yn y gymuned yn ystod cyfnod o waethygiad acíwt ac felly osgoi arhosiad hirfaith yn yr ysbyty.

Gall TYA ddarparu ymateb cyflym i gleifion sy'n derfynol wael ac sydd wedi dewis cael triniaeth yn eu cartrefi yn hytrach nag mewn ysbyty. Er mai'r timau nyrsio ardal yw'r rheolwyr achos o hyd i gleifion o'r fath, gan ddarparu gofal a chymorth dyddiol a chynnal therapi gyrwyr chwistrell, mae nyrsys TYA ar gael i ymateb i unrhyw broblemau y tu allan i oriau mewn perthynas â rheoli symptomau neu gydag offer.

## Cyflawniadau a buddion allweddol hyd yma

- Cynnydd yn nifer yr ymyriadau a gyflawnir yn y gymuned. Er enghraifft, yn Sir Benfro mae'r TYA wedi trin 929 o gleifion yn y gymuned ac felly wedi osgoi'r un nifer o dderbyniadau i ysbytai. Yn Sir Gaerfyrddin mae'r TYA estynedig yn rhoi mwy na 28 o ymyriadau mewnwythiennol ar gyfartaledd, ddwywaith cymaint ag o'r blaen. Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, cafodd 358 o wahanol gleifion eu trin gyda gwrthfiotigau mewnwythiennol yn unig. Roedd hyd y driniaeth yn amrywio o 1 diwrnod i 3 mis, ond cafodd y rhan fwyaf o driniaethau eu rhoi dros 7-14 diwrnod. Os oedd cleifion yn cael eu trin am 10 diwrnod ar gyfartaledd, yna y llynedd cafodd 3,580 o ddyddiau gwely ysbyty eu darparu yn y gymuned gan TYA.
- Mae'r TYA wedi hwyluso rhyddhau 285 o gleifion o'r ysbyty'n gynnar, gan ryddhau gwelyau yn y sector meddygol/llawfeddygol acíwt trwy roi'r dewis i gleifion barhau i gael triniaeth yn eu cartrefi.
- Mae'r gwasanaeth yn darparu mwy o oriau o ofal gan nyrsys cofrestredig dros nos yn Sir Gaerfyrddin. Mae dwy nyrs gofrestredig (un yng Nghaerfyrddin ac un yn Llanelli) ar gael, gan sicrhau bod gofal gan nyrs gofrestredig ar gael bob amser drwy gydol y cyfnod 24 awr.
- Mae'r adborth am y TYA gan gleifion a gofalwyr yn gadarnhaol iawn. Gofynnir i gleifion gwblhau holiaduron boddhad cleifion. Mae'r TYA yn cael cardiau a negeseuon diolch yn rheolaidd gan gleifion yr ydym wedi gallu eu cynorthwyo. Yng Ngheredigion mae'r TYA wedi cael gwobr am Ragoriaeth mewn Gwasanaethau i Ofal Iechyd Dwyieithog.
- Rhagamcanwyd arbedion blynyddol net rheolaidd o £1 miliwn yn wreiddiol ac mae'r rhain wrthi'n cael eu gwireddu. Mae arbedion yn cael eu sicrhau trwy osgoi a/neu leihau hyd cyfnodau fel cleifion mewnol ac mae hyn wedi arwain at waredu gwelyau. Mae hyn wedi helpu'r Bwrdd Iechyd i atal costau sy'n gysylltiedig â'r galw cynyddol ac wedi'i gwneud yn bosibl i'r arian a ddarparwyd gan Gronfa Buddsoddi i Arbed Llywodraeth Cymru gael ei ad-dalu'n llawn yn gynnar.



*TYA Sir Benfro'n trin claf ar fwrdd ei gwch sydd wedi'i angori ym Marina Aberdaugleddau. Roedd y claf angen gwrthfiotigau mewnwythiennol yn dilyn apendectomi ac nid oedd eisiau aros yn yr ysbyty am amser hir, felly dewisodd barhau â'i driniaeth ar fwrdd ei gwch annwyl "Cariad". Gwnaeth hynny hi'n bosibl i'r claf fwynhau ei gwch ac ar yr un pryd cael ei fonitro gan nyrsys y TYA*

## Dysgu

### Beth weithiodd yn dda?

- Mae cynyddu nifer y staff a rhannu'r gwasanaeth yn ddau dîm wedi gwneud gwahaniaeth mawr i'r gwasanaeth. Hefyd mae swyddfa newydd wedi cael ei hagor yn Ysbyty'r Tywysog Philip, sy'n gartref i dîm Llanelli.
- Mae cynyddu'r staff 65.2% a bod â dau dîm mewn canolfan ym mhob pen o'r sir wedi golygu bod y TYA wedi mwy na dyblu ei gapasiti gweithio.
- Trefniadau cydweithio. Mae nyrsys TYA yn cydweithio â nyrsys ardal, ymarferwyr nyrsio Macmillan ac, er enghraifft, Paul Sartori, Beacon of Hope, y Groes Goch Brydeinig a Marie Curie wrth ddarparu gofal lliniarol i gleifion sy'n derfynol wael ac sydd eisiau treulio amser gwerthfawr gartref.

### Beth allai fod wedi gweithio'n well?

- Pe bai'r TYA yn cael ei gydleoli gyda'r gwasanaeth ymarferwyr cyffredinol y tu allan i oriau yn y cyfnodau y tu allan i oriau, gallai fod gwell etheg cydweithio.
- Hefyd wrth gydleoli'r ddau wasanaeth gellid darparu gwasanaeth Meddyg/Nyrs y tu allan i oriau cadarnach i gleifion yn y sir.

## Y camau nesaf

Yn Sir Gaerfyrddin, mae gwaith ar y gweill i gydleoli gyda'r gwasanaeth ymarferwyr cyffredinol y tu allan i oriau ac uno'r ganolfan alwadau i sicrhau atgyfeirio trwy un man mynediad.

## Cyswllt i gael mwy o wybodaeth

Gydag unrhyw ymholiadau neu i gael mwy o wybodaeth am y prosiect cysylltwch â Linda Williams ar rif ffôn 01554 783525 (Cynorthwyydd personol: ffôn: 01554 783273 e-bost: mari.parry@wales.nhs.uk)

# Astudiaeth Achos 6: System e-dreuliau'r GIG

## Nod y prosiect

Mae'r prosiect yn galluogi sefydliadau'r GIG ar draws Cymru i newid i system awtomatig safonol i reoli treuliau sy'n ei gwneud yn bosibl rheoli hawliadau cyflogeion am dreuliau'n fwy effeithiol trwy wasanaeth hawdd ei ddefnyddio ar y we sydd â rhyngwyneb uniongyrchol â'r system Cofnod Staff Electronig (ESR).

## Trosolwg o'r prosiect

Mae'r prosiect yn rhan o'r strategaeth Cydwasanaethau i foderneiddio systemau a phrosesau busnes yng Ngwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru.



Ar hyn o bryd mae pob sefydliad GIG sy'n ymwneud â'r prosiect yn gweithredu systemau hawlio treuliau ar bapur. Mae hyn yn golygu bod hawliadau'n cael eu cwblhau ar bapur gan y staff, eu llofnodi gan reolwyr ac yna eu hanfon at yr adran cyflogres lle cânt eu gwirio i sicrhau eu bod yn gyflawn ac yna eu cofnodi â llaw ar y system Cofnod Staff Electronig i gael eu talu. Y gost ar gyfer taliadau milltiroedd yn unig yw ychydig dros £12 miliwn y flwyddyn ar draws yr holl sefydliadau. Nid yw hyn yn cynnwys costau gweinyddu na thalu treuliau eraill megis ffioedd cyrsiau, cynhaliaeth ac ati.

Buddion newid i system awtomatig i reoli treuliau yw:

- proses fwy effeithlon gyda phroses gyflymach, haws ei defnyddio, cywirach a ddeellir yn well i gofnodi ac ad-dalu hawliadau;
- y gallu i'r staff gyflwyno hawliadau trwy gyfrifiadur personol (ar lein) naill ai o'u cartref neu o'r gwaith;
- mwy o reolaeth dros hawliadau gyda mecanwaith cymeradwyo a system tracio wedi'u cynnwys;
- gallu cynhwysfawr o ran trywydd archwilio ac adroddiadau i dracio hawliadau unigol a hefyd i ddarparu gwybodaeth reoli ddibynadwy;
- mae milltiroedd yn cael eu seilio ar gyfrifiadau o fan i fan (cod post) manwl gywir;
- rhwyddineb gweld pwy sy'n hawlio, am ba reswm a phryd. Mae hyn yn ei gwneud yn haws rheoli gwariant, cyfyngu ar or-hawlio a chanfod twyll posibl;
- cyfyngu ar hawlio anghywir a dim hawliadau 'coll';
- y gallu i ddefnyddio gwiriadau % targededig cyn i'r data gael ei ryngwynebu gyda'r Cofnod Staff Electronig;
- defnyddio llai o bapur ac arbed costau storio; a,
- chydymffurfio'n well â'r Agenda ar gyfer Newid a pholisïau corfforaethol a deddfwriaethol eraill o'r fath. Ni fydd y system yn awdurdodi taliadau milltiroedd oni fo gan yr hawlydd yswiriant, MOT a thrwydded yrru ddilys.

## Cyflawni amcanion y prosiect

Mae'r prosiect yn ymdrin ag oddeutu 64,000 o aelodau o'r staff o wyth o gyrff y GIG a'r gwaith o brosesu tua 194,000 o hawliadau treuliau bob blwyddyn. Fodd bynnag, mae'r contract a negodwyd yn caniatáu ar gyfer cynnydd yn nifer y rhanddeiliaid a'r hawliadau.

Rhagamcanir arbedion o dros £370,000 y flwyddyn ar sail lleihad ceidwadol o 2.5% yn y milltiroedd. Dros amser rhagamcanir hefyd y bydd llai o alw am i'r staff gofnodi data hawliadau a rheoli hawliadau, a fydd yn sicrhau mwy o arbedion. Disgwylir y caiff y buddsoddiad ei ad-dalu cyn pen 12 mis.

## Cyflawniadau a buddion allweddol hyd yma

Hyd yma mae'r prosiect wedi cyflawni'r canlynol:

- gwneud gwaith cwmpasu a chynllunio busnes;
- sefydlu trefniadau rheoli prosiect a llywodraethu;
- caffael system e-dreuliau sy'n bodloni gofynion y defnyddwyr;
- gweithredu cynlluniau peilot mewn dau sefydliad; a,
- datblygu cynllun cyflwyno fesul cam i'r GIG.

Mae'r prosiect ar gam peilot cyflenwi, felly ni fydd y buddion llawn yn cael eu cyflenwi hyd nes y bydd y gwaith cyflwyno fesul cam wedi'i gwblhau; rhagwelir y bydd hyn erbyn diwedd mis Rhagfyr 2013.

## Dysgu

### Beth weithiodd yn dda?

- Cwblhawyd yr ymarfer caffael yn llwyddiannus.
- Mae cynrychiolwyr allweddol o bob sefydliad wedi bod yn rhan bwysig o'r prosiect.

### Beth allai fod wedi gweithio'n well?

- Mae'r cam caffael wedi cymryd yn hirach na'r disgwyl a byddai amserlenni mwy realistig ar gyfer ei gwblhau wedi bod o gymorth ar y dechrau.
- Dealltwriaeth gliriach o brosesau gwybodaeth a llywodraethu.

## Y camau nesaf

Cwblhau'r cynlluniau peilot ac yna symud i'r cam gweithredu llawn gan ddechrau yn 2013.

## Cyswllt i gael mwy o wybodaeth

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:
Julie Evans, Rheolwr y Prosiect Ffôn: 01352 803299 julie.evans8@wales.nhs.uk

# Astudiaeth Achos 7: Cyngor Sir y Fflint – Prosiect Gweithio Symudol

## Nod y prosiect

Nodau'r prosiect yw:

- gwella effeithlonrwydd a pherfformiad sefydliadol trwy ddefnyddio technoleg symudol;
- arddangos y technolegau hynny a'r gwelliannau y gallant eu sicrhau trwy brosiectau peilot mewn tri maes gwasanaeth arddangos penodol; a,
- gwella ymwybyddiaeth sefydliadol, a newid diwylliannol mewn arferion gweithio hyblyg.

## Trosolwg o'r prosiect

Mae'r prosiect Gweithio Symudol yn rhan annatod o raglen gweddnewid Cyngor Sir y Fflint, 'Dyfodol Sir y Fflint'. Ystyrir gweithio symudol ac ystwyth yn elfennau allweddol i gefnogi'r Rhaglen Asedau a hefyd Newid Sefydliadol, sy'n rhan o Ddyfodol Sir y Fflint. Mae'r tri phrosiect peilot arddangos wedi cael eu gweithredu ym meysydd tai, cynllunio a diogelu'r cyhoedd a chaiff y canlyniadau eu hadolygu er mwyn llywio rhagor o waith gweithredu. Mae £262,000 o arian gan Lywodraeth Cymru o'r Gronfa Buddsoddi i Arbed wedi cynorthwyo â'r gwaith o gyflwyno'r prosiect.

Nod y prosiect Gweithio Symudol oedd sicrhau:

- lleihau teithiau staff a chostau cysylltiadau gan leihau teithiau diangen cymaint ag sy'n bosibl;
- cynyddu cynhyrchiant ar draws y gweithlu;
- lleihau cymorth goruchwyliol a gweinyddol;
- cynyddu bodlonrwydd swydd i'r staff gyda mwy o ymreolaeth a hyblygrwydd wrth ymdrin â gwaith; a,
- gwella gwasanaeth a boddhad cwsmeriaid.

Er bod y tri maes peilot wedi cael eu rheoli fel prosiectau ar wahân gyda phob un yn nodi ei amcanion ei hun, mae yna hefyd amcanion cyffredin a rennir rhyngddynt.

- Darparu seilwaith TGCh addas a diogel i gynorthwyo â phrosiectau'r meysydd gwasanaeth.
- Darparu dyfeisiau symudol sy'n addas i anghenion amrywiol pob prosiect maes gwasanaeth h.y. ystyried amgylcheddau gweithio gweithwyr; yn fforddiadwy; a bodloni gofynion y fanyleb dechnegol ar gyfer y datrysiad symudol perthnasol.
- Data wedi'u storio ar yr offer newydd i gael eu diogelu yn erbyn eu colli neu eu dwyn a chadw copïau wrth gefn ohonynt.
- Y cyswllt yn ôl i systemau canolog Cyngor Sir y Fflint i fod yn ddiogel ac i'r adran TGCh allu rhoi cymorth â'r offer o bell.
- Canfod a sicrhau arbedion ariannol ar draws y gwasanaethau o £460,000 y flwyddyn.

## Cyflawni amcanion y prosiect

Mae amcanion allweddol y prosiectau penodol i'r meysydd gwasanaeth fel a ganlyn:

**Tai**

- Rhoi Open Mobile ar waith ar gyfer Atgyweiriadau a Rheoli Asedau gan gynnwys gweithwyr y Sefydliad Llafur Uniongyrchol; gwasanaethu offer nwy; ac arolygiadau tai.
- Cynyddu nifer y gorchwylion mae pob unigolyn yn eu cyflawni pob dydd.
- Cynyddu nifer y gorchwylion sy'n cael eu cwblhau yn unol â'r targed.
- Lleihau gwaith papur a biwrocratiaeth.
- Gwella gwybodaeth rheoli am fod y system yn gwbl electronig ac am fod cofnodion yn cael eu diweddaru gan weithwyr ar y safle yn hytrach na gorfod aros i ddalenni gwaith papur cael eu mewnbynnu gan staff gweinyddol.
- Peidio â chael effaith andwyol ar y system Open Housing bresennol trwy gysylltu â hi gyda'r modiwl a thechnoleg ychwanegol hyn.

**Rheoli Adeiladu (Diogelu'r Cyhoedd)**

- Gwerthuso'r cyfleoedd ar gyfer gweithio hyblyg/symudol mewn perthynas â gwaith arolygu ar safleoedd er mwyn cyflenwi gwelliannau gwirioneddol a chynaliadwy i ansawdd y gwasanaeth.
- Mapio a gwerthuso'r prosesau ac arferion gweithio presennol ym maes Rheoli Adeiladu a chanfod y posibilrwydd am fwy o weithio hyblyg a symudol yn y meysydd hynny.
- Ystyried yr effaith ar bobl wrth newid prosesau a chyflwyno arferion gweithio mwy hyblyg a datblygu dull sensitif o reoli newid.
- Canfod pa raglen dysgu a datblygu mae ei hangen i gefnogi ffyrdd newydd o weithio.
- Gwerthuso buddion defnyddio system electronig i reoli dogfennau ar y cyd gyda gweithio gartref a gweithio symudol.



**Cynllunio**

- Canfod gwelliannau i brosesau ym maes Gorfodi Cynllunio a fydd yn gwella effeithlonrwydd a chyflenwi arbedion ariannol (os cânt eu rhoi ar waith).
- TGCh yn ei gwneud yn bosibl i'r staff weithio o safle, o'u ceir neu o'u cartrefi a lleihau'r angen i fynd i'r swyddfa mor rheolaidd.
- Darparu'r gallu i gael data electronig yn y maes a lleihau'r angen i gario ffeiliau papur.
- Canfod a chaffael meddalwedd ar gyfer gweld cynlluniau safleoedd ar offer a ddefnyddir yn y maes.
- Argymell sut y gellir digideiddio'r ffeiliau papur presennol.

## Cyflawniadau a buddion allweddol hyd yma

I gynorthwyo â'r holl brosiectau, mae safonau corfforaethol ar gyfer systemau gweithredu ar ddyfeisiau symudol wedi cael eu datblygu. At hynny, mae'r gwaith o gaffael a rhoi ar waith MobiControl, cynnyrch i gynorthwyo â rheoli dyfeisiau symudol o bell ac â'u diogelu, wedi cael ei gwblhau. Ar gyfer y meysydd gwasanaeth unigol mae'r cyflawniadau a buddion allweddol fel a ganlyn:

**Tai**

- Caffael datrysiad gweithio symudol integredig oddi wrth Capita.
- Mae dyfeisiau wedi cael eu caffael, eu hadeiladu a'u rhoi i 85 o weithwyr cynnal a chadw tai.
- Mae mwy na 2000 o orchwylion wedi cael eu dyrannu a'u cymeradwyo gan ddefnyddio'r datrysiad symudol.
- Cafodd y prosesau busnes sy'n gysylltiedig â dyrannu a chwblhau gorchwylion eu hadolygu fel rhan o adolygiad Darbodus llawn o'r gwasanaeth ac mae defnyddio gweithio symudol wedi'i gwneud yn bosibl ystyried a rhoi ar waith arbedion effeithlonrwydd sylweddol.
- Mae £400,000 o arbedion effeithlonrwydd wedi cael eu canfod. Mae'r rhain wedi bod o ganlyniad i'r adolygiad cyfan o'r gwasanaeth ac mae gweithio symudol wedi bod yn un o'r ffactorau a gyfrannodd at hyn. Er enghraifft, ni fydd angen i dimau atgyweiriadau a chontract deithio i'r depo'n rheolaidd mwyach, sy'n lleihau costau ac yn hepgor gwastraffu amser.

**Rheoli Adeiladu**

- Datblygu'n fewnol rhaglen gweithio symudol sy'n integreiddio'n llawn â'r system cefn swyddfa (Civica APP).
- Gwerthuso a darparu dyfeisiau symudol addas.
- Ôl-sganio dogfennau i gynorthwyo â gweithio symudol.
- Lleihau'r lle ffisegol o ran storfeydd a swyddfeydd.
- Cam tuag at weithio ystwyth.
- Defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon.
- Datblygwyd astudiaeth achos gyda darparwyr yr offer integreiddio a bydd Sir y Fflint yn rhoi cyflwyniad yn y grŵp defnyddwyr nesaf (mis Hydref 2012).

**Cynllunio**

- Yn gorfforaethol.
- Gwell dealltwriaeth o ystyriaethau, cyfleoedd a chyfyngiadau ac ati i gynorthwyo â dyheadau corfforaethol o ran gweithio ystwyth a symudol.
- Darparodd ganolbwynt yn nhermau ymchwil a datblygu mewn technolegau symudol.

## Dysgu

**Beth weithiodd yn dda?**

- Rhoi ar waith gweithio symudol fel rhan o adolygiad Darbodus i ddangos y modd na fydd technoleg ar ei phen ei hun yn sicrhau'r arbedion effeithlonrwydd gofynnol, ond y dylid ei hystyried fel rhan o adolygiad mwy o fusnes/prosesau.

- Sefydlu grŵp Technolegau Symudol yn yr adran TGCh i ddatblygu safonau ar gyfer gwahanol systemau gweithredu symudol.
- Perthnasoedd ardderchog gyda dau ddarparwr y dyfeisiau symudol, oedd yn amhrisiadwy, a gyda darparwyr y meddalwedd integreiddio/technoleg symudol (ndl-Metascybe).
- Roedd datblygu datrysiad mewnol yn golygu ein bod wedi gallu ymateb yn gyflym i newidiadau gan y cwsmer.

**Beth allai fod wedi gweithio'n well?**

- Deall cyfyngiadau technolegau symudol, yn arbennig signal/cwmpas.
- Tybiaethau y bydd caffael datrysiad 'parod' yn darparu datrysiad yn gyflymach.
- Rheoli disgwyliadau'r gweithlu yn nhermau amserlenni a sut y bydd yr offer yn gweithio.
- Dysgu oddi wrth eraill.
- Datblygu ymagwedd gyson at adnabod a gwireddu buddion ar lefel gwasanaeth.
- Mae'r farchnad technoleg symudol yn symud yn gyflym iawn ac weithiau mae'n anodd cynllunio a neilltuo digon o amser ymchwil i sicrhau ein bod ni'n gwneud y defnydd gorau ohoni. Mae hyn yn arbennig o wir am yr iPad.

## Y camau nesaf

- Cwblhau'r gwaith gweithredu yn y Gwasanaeth Cynllunio.
- Cynnal adolygiadau ôl-weithredu ffurfiol.
- Yn dilyn cyflwyno gweithio symudol, gwneud adolygiad o faint o le swyddfa mae gwasanaethau ei angen.
- Datblygu astudiaethau achos manwl ar gyfer pob prosiect peilot er mwyn gallu sicrhau cyhoeddusrwydd i'r gwersi a'u rhannu'n helaethach yn y cyngor a hefyd gyda chydweithwyr eraill yn y sector cyhoeddus ehangach.
- Canfod meysydd gwasanaeth eraill sydd eisiau mynd ar ôl datrysiadau gweithio symudol (mae gwaith ymgysylltu gyda'r adrannau Rheoli Plâu a Gofal Cymdeithasol Oedolion a Phlant, aelodau'r Tîm Rheoli Corfforaethol eisoes ar y gweill).
- Adolygu safonau technoleg gweithio symudol yn barhaus er mwyn sicrhau y caiff unrhyw dechnolegau newydd eu gwerthuso a'u defnyddio mewn ffordd briodol.

## Cyswllt i gael mwy o wybodaeth

Gydag unrhyw ymholiadau neu i gael mwy o wybodaeth am y prosiect cysylltwch â Mandy Humphreys ar rif ffôn 01352 702821 neu e-bost – mandy.humphreys@flintshire.gov.uk

# Cyfeiriadur Prosiectau

## Asedau

| Amlinelliad | Buddion | Cynnydd | Cyswllt |
|---|---|---|---|
| **Arweinyddiaeth Gwasanaethau Cyhoeddus: Cefnogaeth Sgiliau Hanfodol Asedau Cenedlaethol** | | | |
| Sicrhau sgiliau hanfodol i brysuro gweithgareddau a deilliannau prosiectau partneriaeth Gweithgor Asedau Cenedlaethol (NAWG) blaenoriaethol a sefydlwyd yn 2010.<br>Gwerth y Buddsoddiad: £187,000 | Cyfres o astudiaethau rhychwantu fydd yn cyflenwi ystadau a resymolwyd ac arbedion effeithlonrwydd. Er enghraifft: mae prosiect asedau LSB Caerdydd wedi nodi derbyniadau cyfalaf sylweddol posibl o resymoli ystadau ac arbedion effeithlonrwydd rheolaidd yn ymwneud â'r costau rhedeg uniongyrchol sy'n gysylltiedig â'r eiddo. | Dechreuodd y rhaglen fis Awst 2011, prosiectau'n cynnwys:<br>Bwrdd gwasanaethau lleol Caerdydd.<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro: Strategaeth ystadau ac astudiaeth o ddefnydd o ofod.<br>Blaenau Gwent: Rheoli asedau ar y cyd.<br>Cyngor Sir Powys: Ymarfer cwmpasu eiddo ar gyfer prosiect rhesymoli adfywio canol y dref yn Aberhonddu. | **Kim Owen**<br>Ffôn: 07980853354<br>E-bost:<br>**kim.owen@wales.gsi.gov.uk** |
| **Trawsnewid y Gweithle Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent** | | | |
| Bydd Llys Anvil, Abertileri yn cael ei ail-gyfarparu i ganiatáu cynnydd yn y nifer o staff sy'n cael eu lletya yno ar hyn o bryd o 215 i 350. Bydd trefniadau gwaith hyblyg a gwell rheolaeth o ofod yn cael eu cyflwyno. Bydd y prosiect yn hwyluso cyd-leoli Cyfarwyddiaethau Addysg a Hamdden yr awdurdod.<br>Gwerth y Buddsoddiad: £380,000 | Buddion busnes cysylltiol ehangach. Derbyniadau cyfalaf yn codi o werthiant asedau sy'n weddill. Gellir ad-dalu dros ddwy flynedd. Rhagfynegiant o arbedion effeithlonrwydd cylchol o £175k yn codi o ostyngiad mewn costau rhedeg. | Bydd y cyfleuster newydd yn cyd-leoli gyda'r adran gwasanaethau cymdeithasol a ganolwyd a'r bwriad yw bod yn gyfleuster ar y cyd i gefnogi cydweithio'r cyngor gyda CBC Caerffili. Cwblhawyd y dyluniadau ac mae'r manylebau ar gyfer y gwaith adeiladu wedi'u paratoi. Disgwylir cymeradwyaeth y Grŵp Gweithredu i'r achos busnes llawn ym mis Medi 2012. | **Vanessa Waddon**<br>Ffôn: 01495 355523<br>E-bost:<br>**Vanessa.waddon@blaenau-gwent.gov.uk** |
| **Mwyhau asedau tir ac eiddo  Prosiect "Ein Gofod". Cyngor Sir Caerdydd** | | | |
| Adolygiad o asedau corfforaethol Cyngor Caerdydd i nodi cyd-leoli gan gynnwys rhannu eiddo gyda sefydliadau eraill.<br>Gwerth y Buddsoddiad: £252,000 | Mwyhau buddion asedau tir ac eiddo. Rhyddhau arbedion effeithiolrwydd; gwella mynediad i wasanaethau a lleihau ôl troed carbon. Rhagfynegiant o arbedion effeithlonrwydd o 5-15% o wariant yn ymwneud ag eiddo £5-15 miliwn. | Prosiect 'ein gofod' ar y gweill i leihau nifer prif adeiladau swyddfeydd y cyngor. Gwaith ar Dŷ Wilcox yn awr wedi'i gwblhau gyda gwaith ar Global Link wedi dechrau a gwaith ar Neuadd y Sir i ddechrau'n fuan. | **Charles Coats**<br>Ffôn: 02920 785476<br>E-bost:<br>**ccoats@cardiff.gov.uk** |
| **Gwella eich Gofod. Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen y Bont ar Ogwr** | | | |
| Rhesymoli llety a chyflenwi buddion mewn cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus drwy weithredu strategaeth llety swyddfeydd y Cyngor.<br>Gwerth y Buddsoddiad: £1,408,000 | Prosiect wedi'i weithredu. Gellir cael mwy o wybodaeth ar:<br>Buddsoddi i Arbed: Astudiaeth Achos 3 :<br>http://wales.gov.uk/docs/dpsp/publications/valuewales/111004investmenten.pdf | | **David Sutherland**<br>Ffôn: 01656 642110<br>E-bost:<br>**david.sutherland@bridgend.gov.uk** |

| Amlinelliad | Buddion | Cynnydd | Cyswllt |
|---|---|---|---|
| **Rhaglen Moderneiddio Ysgolion Powys: Cyngor Sir Powys** | | | |
| Codi ysgolion i safon 'addas i bwrpas'. Lleihau'r nifer o leoedd sy'n weddill i o dan 7.5%.<br>Gwerth y Buddsoddiad: £155,000 | Gwell darpariaeth dysgu; ystod ehangach o gyrsiau ar gael. Lleihau'r nifer o leoedd sydd dros ben mewn ysgolion a gwariant o £1 miliwn y flwyddyn. | Mae I2S wedi ariannu tîm i reoli'r cam hwn fydd yn arwain at ddarparu 4 ysgol newydd a chau 10 ysgol bresennol. Wedi agor ysgol newydd yn Ystradgynlais fis Medi 2012. Rhagfynegiant o arbedion blynyddol o £475k. | **Gareth Jones**<br>Ffôn: 07823 536014<br>E-bost: **gareth.jones@powys.gov.uk** |
| **Un corff amgylcheddol i Gymru. Llywodraeth Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru** | | | |
| Dod ag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (EAW), Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCW) a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru (FCW) yn un sefydliad. Cyflawnir effeithlonrwydd drwy rannu adnoddau ac asedau, yn bennaf o fewn swyddogaeth swyddfeydd cefn fel AD, cyllid a TG.<br>Gwerth y Buddsoddiad: £3,025,000 | Rheolaeth gynaliadwy ac effeithlon o adnoddau naturiol Cymru i gyflenwi dull symlach o weithio sy'n osgoi dyblygu diangen. Rhagfynegiant o arbedion posibl yn £158 miliwn dros gyfnod o ddeng mlynedd – mae £128 miliwn o hwn yn rhyddhau arian. | Ymgynghoriad ar drefniadau cyfreithiol a gwaith corff newydd sydd i gau ar 5 Hydref. Corff newydd i fod yn gwbl weithredol ar 1af Ebrill 2013. | **Jon Westlake**<br>Ffôn: 029 2082 5879<br>E-bost: **Jon.Westlake@wales.gsi.gov.uk** |
| **Gollyngiad Carbon a Lleihau'r Defnydd o Ynni. Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam** | | | |
| Mae'r prosiect hwn yn ffurfio rhan allweddol o raglen waith ehangach i leihau'r defnydd o ynni a gollyngiadau carbon, gwneud y gorau o effeithlonrwydd ynni a defnyddio ynni adnewyddol pan fydd yn bosibl ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.<br>Gwerth y Buddsoddiad: £930,000 | Prosiect wedi'i weithredu. Gweler yr astudiaeth achos yn yr adroddiad hwn. | | **Renia Kotynia**<br>Ffôn: 01978 297208<br>E-bost: **renia.kotynia@wrexham.gov.uk** |
| **Pŵer Ffotofoltäig Solar Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru** | | | |
| Gostwng ôl troed carbon a chostau gweithredu Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, a gweithredu fel enghraifft i'n hymwelwyr i gefnogi a chreu camau tuag at weithrediadau cadwraeth ac ymddygiadau cynaliadwy.<br>Gwerth y Buddsoddiad: £90,000 | Prosiect wedi'i weithredu. Gweler yr astudiaeth achos yn yr adroddiad hwn. | | **David Sutherland**<br>Ffôn: 01656 642110<br>E-bost: **david.sutherland@bridgend.gov.uk** |

## Trawsnewid Busnes

| Amlinelliad | Buddion | Cynnydd | Cyswllt |
|---|---|---|---|
| **Meithrin Strategaeth Gwario i Arbed. Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot** | | | |
| Cynyddu cronfa o ofalwyr maeth mewnol Castell-nedd Port Talbot.<br>Gwerth y Buddsoddiad: £388,000 | Gostyngiad mewn gwariant ar leoliadau allanol drutach. Rhagfynegiant o arbedion effeithlonrwydd fesul lleoliad o £27k y flwyddyn o arbedion na ellir eu troi'n arian. | Cynnydd yn y nifer o leoliadau maeth mewnol o 162 lleoliad yn 2009 i 234 lleoliad yn 2012. Mae gwireddu arbedion wedi gostwng y pwysau sy'n codi o'r cynnydd mewn galw am y gwasanaeth yn hytrach na chreu arbedion y gellir eu troi'n arian. | **Karen Jones**<br>Ffôn: 01639 763713<br>E-bost:<br>**k.jones3@neath-porttalbot.gov.uk** |
| **Adolygiad o Systemau Cost-effeithiol o Wasanaethau Asesu a Rheoli Achosion Plant a Phobl Ifanc. Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot** | | | |
| Gostwng y galw am wasanaethau gwaith cymdeithasol plant ar draws Castell-nedd Port Talbot drwy fireinio'r systemau lle mae staff asesu a rheoli achosion yn gweithio.<br>Gwerth y Buddsoddiad: £334,000 | Cynnig gwell gwasanaethau i deuluoedd drwy systemau mwy effeithiol ac effeithlon. Ni ellir penderfynu ar faint llawn effeithlonrwydd hyd nes cwblhau'r adolygiad. | Gwerthusiad allanol o'r gwaith wedi'i gynnal gan brifysgol Abertawe. Mae gwaith gwerthuso pellach o'r newid mewn ymagwedd ar y gweill i sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu gwella ei swyddogaethau'n barhaus. | **Karen Jones**<br>Ffôn: 01639 763713<br>E-bost:<br>**k.jones3@neath-porttalbot.gov.uk** |
| **Powys Di-bapur. Cyngor Sir Powys** | | | |
| Rheoli data'n electronig ar draws Cyngor Sir Powys.<br>Gwerth y Buddsoddiad: £375,000 | Cyflenwi arbedion mewn prosesau craidd a gweinyddu tra'n gwireddu gwelliannau mewn perfformiad, ansawdd a chydymffurfiant. Rhagfynegiant o arbedion effeithlonrwydd o tua £150k y flwyddyn. | Technoleg yn ei le a cham 1 wedi'i gwblhau a'i dreiglo i refeniw a'r tîm budd-daliadau a gofal cymdeithasol. O hyn, wedi cyflawni £130k o arbedion y gellir ei droi'n arian ynghyd â 250 diwrnod o allu staff ychwanegol. Cam 2 ar hyn o bryd yn cael ei gynnal gyda threigl i Ddyledwyr, Addysg, Cludiant a Chredydwyr. | **Allen Hart**<br>Ffôn: 01597 826090<br>E-bost:<br>**allen.hart@powys.gov.uk** |
| **Arddywediad Digidol/ Adnabod Lleferydd. Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr** | | | |
| Gweithredu Offer a Thechnegau Adnabod Lleferydd yn y dull mwyaf cost-effeithlon.<br>Gwerth y Buddsoddiad: £519,000 | Gwell amser trosi i greu gohebiaeth glinigol.<br>Arbedion effeithlonrwydd arian yn fwy o £300k y flwyddyn o 2013-14. | Trefniadau rheoli prosiect wedi'u sefydlu. Cyfathrebu ar y gweill. Prawf o safleoedd cysyniad yn paratoi data llinell sylfaen. | **Emyr Williams**<br>Ffôn: 01248 385330<br>E-bost:<br>**Emyr.Williams2@wales.nhs.uk** |
| **Trefniadau Rhannu Gwasanaethau ar gyfer GIG Cymru. GIG Cymru** | | | |
| Gwella'r economi ac effeithlonrwydd gwasanaethau cefnogi.<br>Gwerth y Buddsoddiad: £250,000 | Rhannu a mabwysiadu arfer gorau. Gostwng gwastraff ac amrywiaeth.<br>Arbedion effeithlonrwydd gros sy'n rhyddhau £17.4 miliwn dros 5 mlynedd o 2011-12. | Sefydlu prosiect sydd wedi gweithredu Partneriaeth Rhannu Gwasanaethau GIG Cymru (NWSSP). | **Peter Lewis**<br>Ffôn: 01352 803394<br>E-bost:<br>**peter.lewis3@wales.nhs.uk** |

| Amlinelliad | Buddion | Cynnydd | Cyswllt |
|---|---|---|---|
| **Uned Cefnogi Rhagnodi Dadansoddiadol Cymru (WAPSU) Partneriaeth Meddyginiaethau Cymru Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro** | | | |
| Datblygu Uned Cefnogi Rhagnodi Dadansoddiadol Cymru GIG i gynnal dadansoddiadau o ddata rhagnodi a defnyddio'r wybodaeth i hybu rhagnodi diogel, effeithiol yn glinigol ac yn gost-effeithiol ar draws Cymru<br>Gwerth y Buddsoddiad: £352,000 | Prosiect wedi'i weithredu. Gweler yr astudiaeth achos yn yr adroddiad hwn. | | **Vi Turner**<br>Ffôn: 029 2082 3858<br>E-bost:<br>**Vi.Turner@Wales.gsi.gov.uk** |

## TGCh

| Amlinelliad | Buddion | Cynnydd | Cyswllt |
|---|---|---|---|
| **Gweithio Hyblyg. Cyngor Sir y Fflint** | | | |
| Gweithio hyblyg a storio/adfer TG ar draws Cyngor Sir y Fflint (yn dilyn gweithredu prosesau mwy cost-effeithiol).<br>Gwerth y Buddsoddiad: £263,000 | Cyflwyno arferion gweithio hyblyg drwy symudedd gyda TG mewn tri maes arddangos penodol o wasanaeth – tai, diogelu'r cyhoedd a chynllunio. Rhagfynegiant o arbedion effeithlonrwydd o £460k y flwyddyn. | Prosiect yn symud ymlaen ac wedi prynu meddalwedd ar gyfer 3 haen y prosiect. Sganio cofnodion papur yn parhau. | **Chris Guest**<br>Ffôn: 01352 702800<br>E-bost:<br>**Chris_Guest@flintshire.gov.uk** |
| **Gweithio Symudol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro** | | | |
| Gwella diogelwch, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gwasanaethau cymuned drwy hyrwyddo gweithio symudol ar gyfer staff yn y gymuned ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.<br>Gwerth y Buddsoddiad: £343,000 | Prosiect wedi'i weithredu. Gellir cael mwy o wybodaeth yn:<br>Buddsoddi i Arbed: Astudiaeth Achos 8:<br>http://wales.gov.uk/docs/dpsp/publications/valuewales/111004investmenten.pdf | | **Gwasanaeth – Sue Morgan**<br>Ffôn: 02920 556004<br>E-bost:<br>**sue.morgan22@wales.nhs.uk**<br>**Technegol – Mark Cahalane**<br>Ffôn: 02920 556004<br>E-bost:<br>**mark.cahalane@wales.nhs.uk** |
| **Cydgrynhoad Band Llydan Sector Cyhoeddus Cymru gyfan (PSBA) Llywodraeth Cymru ar ran Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru** | | | |
| Gweithredu rhwydwaith band llydan telegyfathrebu'r cyflym a dibynadwy sector cyhoeddus ar draws Cymru sy'n darparu gwerth am arian a phrofi yn y dyfodol.<br>Gwerth y Buddsoddiad: £13,910,000 | Prosiect wedi'i weithredu. Gellir cael mwy o wybodaeth ar:<br>Gwefan<br>www.psba.org.uk<br>Buddsoddi i Arbed: Astudiaeth Achos 6:<br>http://wales.gov.uk/docs/dpsp/publications/valuewales/111004investmenten.pdf | | Ffôn: 02920 823190<br>E-bost:<br>**psba@wales.gsi.gov.uk** |

| Amlinelliad | Buddion | Cynnydd | Cyswllt |
|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth Monitro Galwadau Tele-ofal Gogledd Cymru Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy** | | | |
| Sefydlu gwasanaeth technoleg cynorthwyol monitro galw 24 awr rhanbarthol (tele-ofal a thele-iechyd) yng Ngogledd Cymru.<br>Gwerth y Buddsoddiad: £300,000 | Prosiect wedi'i weithredu. Gellir cael mwy o wybodaeth yn:<br>Buddsoddi i Arbed: Astudiaeth Achos 2:<br>http://wales.gov.uk/docs/dpsp/publications/valuewales/111004investmenten.pdf | | **Rhianwen Jones**<br>Ffôn: 01492 577781<br>E-bost:<br>**rhianwen.jones@conwy.gov.uk** |
| **Datblygu Gwefan Trafodaethol – Cyngor Dinas Casnewydd** | | | |
| Gwefan i wella mynediad cwsmeriaid a chynyddu effeithlonrwydd prosesau swyddfeydd ar draws Cyngor Casnewydd (ar y cyd gyda Phrosiect Wyneb-yn-Wyneb).<br>Gwerth y Buddsoddiad: £450,000 | Arbedion effeithlonrwydd yn deillio o symud cyflenwi rhai gwasanaethau dros y we. Gall cost drafodaethol leihau o 17p i £7+. | Gwelliannau wedi'u gwneud i safle we i gynyddu defnydd ar ffurf: gwella cynnwys; ymelwa ar gyfleoedd sifft pellach; hybu i newid ymddygiad cwsmeriaid; cynllunio i ail-ddylunio gwefan lawn ac archwilio technoleg waelodol. | **Frances Sharp**<br>Ffôn: 01633 851477<br>E-bost:<br>**frances.sharp@newport.gov.uk** |
| **CCTV Cydweithio Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy** | | | |
| Asesu ymarferoldeb moderneiddio'r ymagwedd at CCTV ar draws 6 Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru drwy greu un tîm gweithredu rhanbarthol.<br>Gwerth y Buddsoddiad: £805,000 | Arbedion refeniw cylchol blynyddol o £90K ym mlwyddyn 1, yn codi i £226K erbyn blwyddyn 6.<br>Effeithlonrwydd na ellir eu troi'n arian yn cynnwys ail-reoli digwyddiadau, cyflymder dal ar ffilm a gweithgaredd tasgio.<br>Creu cynaladwyedd a hydwythedd. | Achos busnes drafft diwygiedig yn cael ei ystyried gan y partneriaid. | **Julian B Sandham**<br>Ffôn: 01492 575701<br>E-bost:<br>**julian.b.sandham@conwy.gov.uk** |
| **System E-dreuliau'r GIG. Partneriaid Rhannu Gwasanaethau'r GIG** | | | |
| Datblygwyd y prosiect i alluogi sefydliadau'r GIG ar draws Cymru i symud i system rheoli treuliau awtomataidd safonol sy'n caniatáu rheolaeth fwy effeithiol o hawliadau treuliau cyflogai drwy wasanaeth cyfeillgar i'r defnyddwyr ar y we gyda rhyngwyneb uniongyrchol i mewn i'r system Cofnod Staff Electronig (ESR).<br>Gwerth y Buddsoddiad: £125,000 | Prosiect yn cael ei weithredu. Gweler astudiaeth achos yn yr adroddiad hwn. | | **Peter Lewis**<br>Ffôn: 01352 803394<br>E-bost:<br>**peter.lewis3@wales.nhs.uk** |

## Modelau newydd i Gyflenwi Gwasanaethau

<table>
<tr><th>Amlinelliad</th><th>Buddion</th><th>Cynnydd</th><th>Cyswllt</th></tr>
<tr><td colspan="4">Gofal yn Nes i'r Cartref Bwrdd Iechyd Hywel Dda</td></tr>
<tr><td>Canfod cleifion o fewn clystyrau Meddygon Teulu fyddai'n elwa o gael eu rheoli yn y Gymuned a rheoli cleifion risg uchel yn broactif drwy ddarparu gofal amlddisgyblaeth iddyn nhw'n nes adref.<br>Gwerth y Buddsoddiad:<br>£2,710,000</td><td>Gostwng y nifer sy'n cael eu derbyn i ysbytai a galluogi rhyddhau ynghynt, hefyd lleihau'r nifer o ymweliadau cleifion â lleoliadau gofal eilaidd. Arbedion effeithlonrwydd o £5.5 milwn erbyn 2012/13 a thrwy ryddhau adnoddau o'r sector aciwt, mae hyn yn cynyddu i £9.5 milwn o 2013/14.</td><td>Prosiect wedi'i gyhoeddi ym mis Mehefin 2012. Gweithredu ar y gweill.</td><td>Kathryn Davies<br>Ffôn: 01267 239573<br>E-bost:<br>Kathryn.davies10@wales.nhs.uk</td></tr>
<tr><td colspan="4">Tîm Ymateb Aciwt. Bwrdd Iechyd Hywel Dda</td></tr>
<tr><td>Darparu ymyraethau nyrsio aciwt gyda therfyn amser i gleifion o fewn y gymuned a fyddai fel arall wedi gorfod cael triniaeth claf preswyl mewn gwely mewn ysbyty.<br>Gwerth y Buddsoddiad:<br>£1,112,000</td><td colspan="2">Prosiect wedi'i weithredu. Gweler astudiaeth achos yn yr adroddiad hwn.</td><td>Linda Williams<br>Ffôn: 01554 783525<br>E-bost:<br>linda.williams@wales.nhs.uk</td></tr>
<tr><td colspan="4">Gwelyau Adferiad Cyngor Sir Caerfyrddin</td></tr>
<tr><td>Annog a galluogi pobl hŷn i gynnal eu hannibyniaeth, i ennill hyder a symud ymlaen i adfer yn barod i ddychwelyd adref neu i drefniadau gofal eraill.<br>Gwerth y Buddsoddiad:<br>£200,000</td><td colspan="2">Prosiect wedi'i weithredu. Gwelir mwy o wybodaeth yn:<br>Buddsoddi i Arbed: Astudiaeth Achos 4:<br>http://wales.gov.uk/docs/dpsp/publications/valuewales/111004investmenten.pdf</td><td>Rita Thomas<br>Ffôn: 01267 228901<br>E-bost:<br>rithomas@carmarthenshire.go.uk</td></tr>
<tr><td colspan="4">Ymgyrch Wyn: Adennill a Chadw Annibyniaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro</td></tr>
<tr><td>Integreiddio rhaglen iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer pobl fregus a hŷn. Anelu at weithredu'r model 'Tîm o Gwmpas Wyn' i gyflenwi gwasanaethau'n brydlon ac yn gymesur sy'n mwyhau annibyniaeth a lles dinasyddion a'u teuluoedd yng nghyd-destun eu cymunedau.<br>Gwerth y Buddsoddiad:<br>£3,200,000</td><td>Osgoi cost gallu ychwanegol a fyddai ei angen fel arall yn y sector aciwt. Osgoi derbyniadau diangen i ysbytai hyd y mae'n bosibl a lleihau hyd arhosiad pan fydd angen eu derbyn. Ad-daliad llawn o gronfeydd yn 2015-2016 gyda rhagfynegiant o arbedion o £1.3 milwn yng Ngham 1.</td><td>Prosiect wedi'i gymeradwyo o fewn Rownd VI ym mis Mehefin 2012. Gweithredu ar y gweill.<br>Recriwtio tua 50 o swyddi i chwyddo'r Timau Adnoddau yn y Gymuned. Timau bron yn llawn. Dyddiad dechrau 'Wyn Cam 1' fydd 1af Tachwedd 2012.</td><td>Lynda Chandler<br>Ffôn: 02920 336174<br>E-bost:<br>lynda.chandler@wales.nhs.uk</td></tr>
</table>

| Amlinelliad | Buddion | Cynnydd | Cyswllt |
|---|---|---|---|
| **Model Gofal Canolradd System Integredig yn ei Chyfanrwydd Bwrdd Iechyd Cwm Taf** | | | |
| Cyflwyno Model Gofal Canolradd System Integredig yn ei Chyfanrwydd. Nod y model amlddisgyblaeth/asiantaeth yw cefnogi unigolion yn y gymuned sydd mewn risg o orfod mynd i ysbyty neu sy'n dechrau methu yn eu cartrefi yn ogystalâ pharatoi gallu ychwanegol i gynnig rhaglenni ail-alluogi i'r rhai fyddai'n elwa o wasanaeth cyffelyb.<br>Gwerth y Buddsoddiad: £1,580,000 | Cyflenwi gofal o'r safon uchaf yn yr amgylchedd mwyaf priodol i ateb anghenion y claf gan sicrhau gostyngiad yn y nifer sy'n cael eu derbyn i ysbytai/hyd arhosiad/ail-dderbyn/diwrnodau gwelyau. Arbedion effeithlonrwydd blynyddol o £1.8 milwn o 2016 gyda chyfanswm arbedion effeithlonrwydd arian o £2.4 milwn erbyn 2016. | Prosiect wedi'i gymeradwyo o fewn Rownd VI ym mis Mehefin 2012. Gweithredu ar y gweill. | **Rebecca Luffman**<br>Ffôn: 01443 744857<br>E-bost: **Rebecca.Luffman@wales.nhs.uk** |
| **Prosiect Eiddilwch Gwent Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Leol** | | | |
| Mae Rhaglen Eiddilwch Gwent wedi sefydlu trefniadau i gyflenwi gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol pobol ganolog di-dor drwy greu timau cymysg o weithwyr proffesiynol.<br>Gwerth y Buddsoddiad: £375,000 | Prosiect wedi'i weithredu. Gellir cael mwy o wybodaeth ar:<br>Gwefan: www.gwentfrailty.torfaen.gov.uk<br>Buddsoddi i Arbed: Astudiaeth Achos 1: http://wales.gov.uk/docs/dpsp/publications/valuewales/111004investmenten.pdf | | **Gill Lewis**<br>Ffôn: 01633 623828<br>E-bost: **gill.lewis3@wales.nhs.uk** |
| **Darparu Gofal Amlapio Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam** | | | |
| Datblygu ac ail-strwythuro gwasanaethau presennol ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i ail-sefydlu a chyflawni anghenion cymhleth pobl ifanc sy'n derbyn gofal ac sydd ar hyn o bryd y tu allan i'r sir, mewn lleoliadau'r sector annibynnol.<br>Gwerth y Buddsoddiad: £106,000 | Gwell deilliannau a safon gwasanaeth i blant a phobl ifanc. Ail-fuddsoddi arbedion i ddatblygu model ac osgoi costau yn y dyfodol. Arbedion gros i ryddhau £1.2 miliwn dros 3 blynedd yn dechrau 2011-12. | Gwell cydweithio rhwng asiantaethau drwy sefydlu'r tîm amlapio, recriwtio gofalwyr fel Gofalwyr Maeth Therapiwtig a sefydlu trefniadau ymgynghori cadarn gyda gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr gofal, gweithwyr cefnogi a theuluoedd. | **Audrey Somerton-Edwards**<br>Ffôn: 01978 295360<br>E-bost: **audrey.somerton-edwards@wrexham.gov.uk** |
| **Cludiant Di-frys i Gleifion – Peilot Partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, GIG Cymru a'r Trydydd Sector** | | | |
| Gwella gwasanaethau cludo difrys i gleifion ysbytai drwy gynnal peilot o fodel cyflenwi ddim er elw claf ganolog oedd yn datblygu trefniadau rheoli cadarnach a chydlynu rhwng darparwyr y sector gyhoeddus a'r 3ydd sector.<br>Gwerth y Buddsoddiad: £430,000 | Prosiect wedi'i weithredu. Gweler astudiaeth achos yn yr adroddiad hwn. | | **Susan Thompson**<br>Ffôn: 029 2082 6256<br>E-bost: **Susan.Thompson@wales.gsi.gov.uk** |

| Amlinelliad | Buddion | Cynnydd | Cyswllt |
|---|---|---|---|
| **Rhaglen Cydweithio Gwell Adferiad 1000 o fywydau Cymru gyfan (ERP)** | | | |
| Gwella deilliant ac effeithlonrwydd llawfeddygaeth gastroberfeddol ar draws GIG Cymru gan ddefnyddio'r rhaglen gwella adferiad.<br>Gwerth y Buddsoddiad: £569,000 | Bydd gweithredu ERP yn gwella mesurau effeithlonrwydd o safbwynt gostwng hyd arhosiad, cymhlethdodau ôl-lawdriniaeth, canslo llawdriniaeth a chyfraddau ail-dderbyn. Rhagfynegiant o arbedion y rhaglen yn gyffredinol yn £1.15 miliwn yn flynyddol. | Mae'r BILlau'n dangos cynnydd cyson. Profion yn cael eu cynnal gan ddau dîm o fewn Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan. | E-bost:<br>**I2Simprovementfund@wales.gsi.gov.uk** |
| **Adsefydlu Iechyd Meddwl – Prosiect Adfer a Chynhwysiant Cymdeithasol Bwrdd Iechyd Hywel Dda** | | | |
| Moderneiddio gwasanaethau iechyd meddwl i bobl â phroblemau cymhleth a difrifol a pharhaus yn siroedd Penfro, Caerfyrddin a Cheredigion.<br>Gwerth y Buddsoddiad: £564,000 | Prosiect wedi'i weithredu.<br>Gellir cael mwy o wybodaeth ar:<br>Buddsoddi i Arbed: Astudiaeth Achos 4:<br>**http://wales.gov.uk/docs/caecd/publications/150612invest2save.pdf** | | **Gill Davies**<br>Ffôn: 01267 239691<br>E-bost:<br>**gill.davies@wales.nhs.uk** |
| **Rheoli Meddyginiaethau Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan** | | | |
| Datblygu ymgynghorwyr rhagnodi mewn wardiau aciwt fydd yn helpu i sicrhau arferion rhagnodi mwy cost-effeithiol mewn ysbytai.<br>Gwerth y Buddsoddiad: £440,000 | Newidiadau cynaliadwy mewn gofal maeth yn y gymuned. Gwell buddion maeth i gleifion. Gostwng costau rhagnodi. Arbedion ariannol blynyddol o £0.76 milwn o 2015 a chyfanswm arbedion effeithlonrwydd o £0.6 milwn erbyn 2014. | Prosiect wedi'i gymeradwyo o fewn Rownd VI ym mis Mehefin 2012. Gweithredu ar y gweill. | **Rob Holcombe**<br>Ffôn: 07815 187 972<br>E-bost:<br>**robert.holcombe@wales.nhs.uk** |
| **Canolfan Wyneb yn Wyneb Aml-Asiantaeth i Gasnewydd "Un Casnewydd" Cyngor Dinas Casnewydd** | | | |
| Sefydlu canolfan Wyneb yn Wyneb a lloerennau aml-asiantaeth o fewn dinas Casnewydd i hyrwyddo mynediad uniongyrchol i'r cyhoedd i ystod o wasanaethau dinasyddion-ganolog.<br>Gwerth y Buddsoddiad: £700,000 | Prosiect wedi'i weithredu. Gellir cael mwy o wybodaeth ar:<br>Buddsoddi i Arbed 2: Astudiaeth Achos 1 :<br>**http://wales.gov.uk/docs/caecd/publications/150612invest2save.pdf** | | **Nia Lewis**<br>Ffôn: 01633 851559<br>E-bost:<br>**nia.lewis@newport.gov.uk** |
| **Athrofa Prifysgol Cymru (UWIC) – i-zone, siop un alwad i fyfyrwyr. UWIC** | | | |
| Gwella gwasanaethau myfyrwyr yn sylweddol drwy ddatblygu siop un alwad yn ei brif gampws yn Llandaf.<br>Gwerth y Buddsoddiad: £718,500 | Prosiect wedi'i weithredu. Gellir cael mwy o wybodaeth ar:<br>**http://www3.uwic.ac.uk/english/i-zone/pages/home.aspx**<br>Buddsoddi i Arbed: Astudiaeth Achos 7:<br>**http://wales.gov.uk/docs/dpsp/publications/valuewales/111004investmenten.pdf** | | **Anne Curtis**<br>Ffôn: 02920 416170<br>E-bost:<br>**acurtis@cardiffmet.ac.uk** |

## Gweithlu

| Amlinelliad | Buddion | Cynnydd | Cyswllt |
|---|---|---|---|
| **Cynllun Rhyddhau'n Gynnar Gwirfoddol Cenedlaethol (VERS) ar gyfer GIG Cymru GIG Cymru** | | | |
| Rhaglen yn cynnwys y Byrddau Iechyd a'r Ymddiriedolaeth GIG. Mae'r cynnig yn helpu'n benodol i ariannu rhyddhau staff ac felly creu'r lle i raglen drawsnewid ehangach a hyblygrwydd i lunio gwasanaethau drwy wahanol gymysgedd o sgiliau ayyb.<br>Gwerth y Buddsoddiad: £13,700,000 | Bydd y rhaglen yn cynorthwyo'r GIG i gyflawni ei weledigaeth 5 mlynedd gan gynnwys ceisio enillion effeithlonrwydd o ryw 5% y flwyddyn. | Bydd cyflawni Cam 1 yn sicrhau arbedion o £5.4 milwn yn gylchol. Cyfanswm Gwerth y Buddsoddiad: £300,000<br>Bydd Cam 2 a 3 yn sicrhau arbedion pellach o £13 milwn yn gylchol. | **Ar gyfer Cam 2 a 3 cysylltwch â:**<br>**Steve Elliot**<br>Ffôn: 029 20823245<br>E-bost:<br>**steve.elliot@wales.gsi.gov.uk** |
| **E-Ddyletswyddau Bwrdd Iechyd Hywel Dda** | | | |
| BILl Hywel Dda yn treiglo rhaglen ar gyfer e-ddyletswyddau, systemau amser a phresenoldeb ar draws y Bwrdd Iechyd.<br>Gwerth y Buddsoddiad: £255,000 | Trefnu dyletswyddau staff yn effeithlon. Mwy o gydbwysedd gwaith/bywyd i staff. System decach wrth i geisiadau staff gael eu sgorio gan y system nid gan reolwyr. Gwaredu taflenni amser papur. Buddion busnes cysylltiol ehangach gan gynnwys rhyddhau amser staff. Gellir ad-dalu dros ddwy flynedd. Rhagfynegiant o arbedion effeithlonrwydd ar gyflogau di-graidd meddygol o £200k yn 2012-13 a £300k erbyn 2013 sy'n codi o lai o angen am gyflenwi banc, asiantaeth a locwm. | Treiglo ar darged ar gyfer yr holl feysydd anfeddygol gyda 94 maes yn fyw a 5 ychwanegol yn y cyfnod ymgynghori. Mae 7 ward ysbyty'n fyw ar y rhestr gyflogau ac mae'r taflenni amser papur wedi'u gwaredu. Mae 9 arall yn y cyfnod profi paralel. Mae proses reolaeth ar gyfer cymeradwyo rhestr gyflogau'n mynd yn fyw yn ei lle. Mae'r elfen feddygol o'r system yn aros i gael ei gweithredu. Mae gwaith ar y gweill i wella effeithlonrwydd y rhestr ddyletswyddau yn y meysydd gwasanaeth. | **Lisa Gostling**<br>Ffôn: 01267 239700<br>E-bost:<br>**lisa.gostling@wales.nhs.uk** |
| **E-ddyletswyddau – Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan** | | | |
| Bydd y prosiect yn hwyluso E-Ddyletswyddau i bob grŵp staff. Gwelir cynyddu cynhyrchiant ac effeithlonrwydd o'r cytundeb ymgynghorwyr a thrwy leihau:<br>• Gwariant cyflogau amrywiol<br>• Anghyfartaleddau mewn arferion dyletswyddau<br>• Swyddogaeth rhestr gyflogau<br>• Absenoldeb salwch<br>Gwerth y Buddsoddiad: £240,000 | Gwell rheolaeth glinigol drwy gael staff gyda'r sgiliau cywir ar yr amser cywir yn cyflenwi gofal yn y dull mwyaf cost-effeithlon. Gostyngiad yn swyddogaethau rhestrau cyflogau yn y swyddfa gefn a'r camgymeriadau mewn gordaliadau sy'n gysylltiedig â thaflenni amser. Rhagfynegiant o arbedion effeithlonrwydd o £1.4 milwn o 2016 a chyfanswm arbedion effeithlonrwydd y prosiect o £2.9 milwn erbyn 2016. | Prosiect wedi'i gymeradwyo o fewn Rownd VI ym mis Mehefin 2012. Gweithredu ar y gweill. | **Julie Rowles**<br>Ffôn: 01633 623473<br>E-bost:<br>**Julie.Rowles@wales.nhs.uk** |

## Caffael

| Amlinelliad | Buddion | Cynnydd | Cyswllt |
|---|---|---|---|
| **Rhaglen cyd-gaffael GIG Cymru gyfan i sicrhau gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion. GIG Cymru** | | | |
| Sicrhau gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu oedolion o safon uchel a chost-effeithlon, diogeledd isel a chanolradd GIG Cymru oddi wrth ddarparwyr gwasanaethau di-GIG.<br>Gwerth y Buddsoddiad: £169,000 | Prosiect wedi'i weithredu. Gellir cael mwy o wybodaeth ar:<br>Buddsoddi i Arbed 2: Astudiaeth Achos 2:<br>http://wales.gov.uk/docs/caecd/publications/150612invest2save.pdf | | **Julian Baker**<br>Ffôn: 02920 207604<br>E-bost:<br>**julian.baker@wales.nhs.uk** |
| **System e-gaffael xchangewales Merthyr Tudful Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful** | | | |
| Cynyddu cynhyrchiant ac ennill effeithlonrwydd drwy gyflwyno meddalwedd a swyddogaeth e-gaffael.<br>Gwerth y Buddsoddiad: £217,000 | Prosiect wedi'i weithredu. Gellir cael mwy o wybodaeth ar:<br>Buddsoddi i Arbed 2: Astudiaeth Achos 3:<br>http://wales.gov.uk/docs/dpsp/publications/valuewales/111004investmenten.pdf | | **Ceri Lewis**<br>Ffôn: 01685 725253<br>E-bost:<br>**ceri.lewis@merthyr.gov.uk** |
| **Caffael Cymru gyfan Rhannu Gwasanaethau'r GIG** | | | |
| Penderfynu ar gyfleoedd arbed costau posibl y gellir eu cyflawni drwy ymagwedd GIG Cymru gyfan i gaffael cynnyrch mwy cost-effeithiol.<br>Gwerth y Buddsoddiad: £300,000 | Prosiect wedi'i weithredu. Gellir cael mwy o wybodaeth ar:<br>www.procurement.wales.nhs.uk<br>Buddsoddi i Arbed: Astudiaeth Achos 5:<br>http://wales.gov.uk/docs/dpsp/publications/valuewales/111004investmenten.pdf | | **Mark Roscrow**<br>Ffôn: 02920 315490<br>E-bost:<br>**mark.roscrow@wales.nhs.uk** |
| **Partneriaeth Rhannu Gwasanaethau'r GIG – Cytundeb Cymru gyfan ar gyfer darparu Iechyd Meddwl/Anableddau Dysgu Rhannu Gwasanaethau'r GIG – Gwasanaethau Caffael** | | | |
| Darparu gwasanaethau adsefydlu ar gyfer cleifion iechyd meddwl ac anableddau dysgu o fewn ysbytai annibynnol. Darparu sicrwydd ansawdd gofal a ddarperir gan y lleoliad drwy osod manylion cenedlaethol a safonau gwasanaeth.<br>Gwerth y Buddsoddiad: £300,000 | Sicrhau gwell ansawdd mewn darpariaeth gwasanaethau a gwell deilliannau cleifion. Rhagfynegiant o arbedion effeithlonrwydd arian o £5 milwn o 2013 a chyfanswm arbedion effeithlonrwydd o £25 milwn erbyn 2018. | Prosiect wedi'i gymeradwyo o fewn Rownd VI ym mis Mehefin 2012. Gweithredu ar y gweill. | **Shane Mills**<br>Ffôn: 01874 712644<br>E-bost:<br>**Shane.Mills@wales.nhs.uk** |

Yn ychwanegol at y prosiectau uchod, mae Buddsoddi i Arbed hefyd wedi bod yn darparu cefnogaeth i fentrau eraill gan gynnwys gweithredu a chymhwyso systemau adrodd llinell gwasanaeth o fewn y GIG a datblygu cynllun gwasanaeth a chyllid 5 mlynedd ar gyfer GIG Cymru.

# Gwybodaeth bellach a chysylltiadau

Y cyhoeddiad hwn yw'r trydydd mewn cyfres sy'n darparu astudiaethau achos byr a gwybodaeth am brosiectau gwella gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r prosiectau hyn wedi cael cymorth gan Lywodraeth Cymru drwy'r Gronfa Buddsoddi i Arbed. Gellir dod o hyd i gyhoeddiadau blaenorol a gwybodaeth gyffredinol am y Gronfa Buddsoddi i Arbed ar wefan Llywodraeth Cymru yn:

**http://wales.gov.uk/topics/improvingservices/bettervfm/i2savefund/?skip=1&lang=cy**

Os hoffech drafod cynnig i ddatblygu prosiect ac archwilio'r posibiliadau ar gyfer cael cymorth gan y Gronfa Buddsoddi i Arbed, yna cysylltwch â Richard Clarke, Pennaeth yr Uned Buddsoddi i Arbed:

e-bost: **I2Simprovementfund@cymru.gsi.gov.uk**